# Cynllun Grant Diwydiant 4G+

## Canllawiau Gwneud Cais

**Dyddiad cyhoeddi:**

**Fersiwn: 1.0**

*Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf.*

## Tabl Cynnwys


1 Cyflwyniad ... 4

1.1 Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Uchelgais Gogledd Cymru ... 4

1.2 Rhaglen Cysylltedd Digidol ... 4

1.3 Cynllun Grant Diwydiant 4G+ ... 4

1.4 Ystyriaethau Hanfodol i bob Ymgeisydd ... 5

1.4.1 Cystadleuaeth ... 5

1.4.2 Gofynion cyllid cyfatebol ... 6

1.4.3 Tryloywder ariannol ... 6

1.4.4 Ffioedd ... 6

1.4.5 Gofynion perfformiad ... 6

2 Egwyddorion a Meini Prawf y Cynllun ... 7

2.1 Meini Prawf Cymhwysedd ac Asesu ... 7

2.1.1 Cymhwysedd ymgeisydd ... 7

2.1.2 Lleoliad y prosiect ... 8

2.1.3 Gweithgaredd newydd ... 8

2.1.4 Argaeledd cyllid gan gynnwys arian cyfatebol ... 8

2.1.5 Hyfywedd ariannol ... 8

2.1.6 Cymhwysedd gwariant prosiect ... 8

2.1.7 Caffael ... 9

2.1.8 Addasrwydd strategol ... 9

2.1.9 Deilliannau mandadol ... 9

2.1.10 Deilliannau ychwanegol ... 10

2.1.11 Gwerth am arian ... 10

2.1.12 Cyflawnadwyedd y prosiect ... 11

2.1.13 Amserlen y prosiect ... 11

2.1.14 Technoleg ... 11

2.1.15 Rheoli Cymorthdaliadau ... 11

2.1.16 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad ... 12

2.1.17 Diwydrwydd Dyladwy ... 12

2.1.18 Preifatrwydd a chyfrinachedd ... 12

2.2 Gweithgareddau a Chostau Anghymwys ... 12

3 Y Broses Ymgeisio ... 13

3.1 Trosolwg o'r Broses ... 13

3.2 Cam Datganiad o Ddiddordeb (EOI) 13
3.2.1 Safleoedd targed 13
3.2.2 Cyflwyniad EOI 14
3.2.3 Asesiad EOI 14
3.2.4 Penderfyniad EO 14
3.3 Cam Gwneud Cais 14
3.3.1 Cyflwyno cais 14
3.3.2 Asesu cais 14
3.3.3 Penderfyniad ar y cais 15
4 Proses Dyfarnu ac Ôl-ddyfarnu 15
4.1 Cytundeb Cyllid Grant (GFA) 15
4.1.1 Templed GFA 15
4.1.2 Atodlen 1 GFA Telerau ac Amodau 15
4.1.3 Atodlen 2 GFA Deilliannau a Cherrig Milltir 15
4.1.4 Atodlen 3 GFA Rhagolwg Gwariant 15
4.1.5 Ffi GFA 15
4.2 Cychwyn a Chyflawni'r Prosiect 15
4.2.1 Cyfarfod Cychwyn y Prosiect 15
4.2.2 Monitro ac adrodd ar brosiectau 16
4.2.3 Newidiadau i'r prosiect 16
4.3 Hawliadau 16
4.3.1 Proses hawlio 16
4.3.2 Tystiolaeth hawliadau 16
5 Monitro a Gwerthuso 17
5.1 Gwirio perfformiad 17
5.2 Monitro a gwerthuso 17
5.3 Gwelliant parhaus a gwerthuso allanol 18
Atodiad 1. Templed Cytundeb Cyllid Grant 19

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Uchelgais Gogledd Cymru

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, a elwir yn Uchelgais Gogledd Cymru, yn gorff rhanbarthol sydd â chyfrifoldebau am drafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol yn ogystal â chyfrifoldeb i wella a hyrwyddo lles economaidd gogledd Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys y chwe awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Uchelgais Gogledd Cymru.

Gorchwyl Uchelgais Gogledd Cymru yw cyflawni gwaith Cynllun Twf Gogledd Cymru. Nod y Cynllun Twf yw dod â dros £1 biliwn o fuddsoddiad i'r Gogledd er mwyn cynhyrchu dros 4,000 o swyddi newydd a chynnydd mewn GVA. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf ar y cyd dros gyfnod o 15 mlynedd, gyda'r gweddill wedi'i ddenu o ffynonellau preifat a chyhoeddus.

## 1.2 Rhaglen Cysylltedd Digidol

Mae'r Rhaglen Cysylltedd Digidol yn un o nifer o raglenni'r Cynllun Twf ac mae wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â heriau cysylltedd yng Ngogledd Cymru. Er bod gweddill y DU wedi elwa ar wasanaethau gwell yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oes gan lawer o'n cymunedau gysylltedd band eang symudol a sefydlog cryf. Bydd y rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am ddigidol ac elwa o gysylltedd cyflym o ansawdd uchel.

Mae gan Cysylltedd Digidol ddyraniad cyllid o £29.81 miliwn o'r Cynllun Twf a bydd yn trosoli cyllid pellach gan y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd y rhaglen yn cyflwyno cysylltedd cynaliadwy i'r rhanbarth, yn denu mewnfuddsoddiad ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer mwy o drigolion a busnesau gan arwain at Werth Ychwanegol Crynswth (GVA) ychwanegol a chreu swyddi.

Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen Cysylltedd Digidol yn cynnwys tri phrosiect, un ohonynt yw'r **Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+.** Mae amcanion y prosiect hwn fel a ganlyn:

- Darparu gwasanaeth 4G neu 5G gan yr holl Weithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNOs) gan gynnwys dan do, awyr agored ac mewn cerbydau mewn lleoliadau allweddol ar hyd coridorau rheilffyrdd a thrafnidiaeth ac ar safleoedd busnes a thwristiaeth; cyn belled â phosibl o fewn y gyllideb sydd ar gael erbyn Ionawr 2030 mewn amodau poblogaeth arferol ar gyfer y lleoliad, h.y. ar adegau prysur tebygol, ac nid ar gyfartaledd yn unig.
- Sicrhau bod gogledd Cymru wedi'i harfogi ar gyfer mudo i ddarpariaeth 5G o dan 6GHz pan fo'r MNOs yn uwchraddio eu rhwydweithiau.
- Cyflawni cynnydd o hyd at £9m mewn GVA erbyn 2036.
- Darparu 28.5 o swyddi anuniongyrchol erbyn 2036.
- Sicrhau buddsoddiad sector preifat o £2m erbyn 2036.

## 1.3 Cynllun Grant Diwydiant 4G+

Mae Cynllun Grant Diwydiant 4G+ Uchelgais Gogledd Cymru yn elfen allweddol o Brosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+. Mae wedi'i gynllunio i ddarparu cymorthdaliadau wedi'u tar-

gedu i Weithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNOs), hosts niwtral a darparwyr seilwaith ar gyfer defnyddio ac uwchraddio seilwaith symudol 4G a 5G mewn lleoliadau Total Not Spot (TNS) a Partial Not Spot (PNS) yng ngogledd Cymru.

Crëwyd y Cynllun Grant Diwydiant 4G+ oherwydd bod bwlch hyfywedd masnachol yn bodoli yn yr ardaloedd hyn sydd heb eu gwasanaethu ac mae ymgysylltu â'r farchnad wedi cadarnhau bod angen cyllid cyhoeddus i ddarparu'r cymhelliant angenrheidiol i weithredwyr masnachol fuddsoddi. Bydd y Cynllun yn darparu cymorthdaliadau i bontio'r bwlch hyfywedd masnachol a gwneud defnydd mewn lleoliadau heb eu gwasanaethu yn fasnachol hyfyw, gan ddarparu'r cymhelliant angenrheidiol i gynhyrchu'r cynnydd angenrheidiol mewn gwasanaeth symudol a chapasiti effeithiol. Mae cyfanswm cronfa o hyd at £4 miliwn ar gael ar hyn o bryd dros gyfnod o 4-5 mlynedd rhwng 2026 a Ionawr 2030. Efallai y bydd cyllid pellach ar gael yn dibynnu ar lwyddiant y dyraniad cychwynnol, ac yn amodol ar argaeledd.

Mae'r Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+ hefyd yn cynnwys **Cynllun Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus** a fydd yn ariannu awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn gwelliannau asedau a seilwaith newydd i gefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus. Gall gwelliannau gynnwys ailosod colofnau goleuadau sydd wedi dyddio, gosod *backhaul* ffeibr, uwchraddio cyflenwadau pŵer, gwella mynediad i'r adeilad, neu atgyfnerthu cefnogaeth strwythurol. Ar ôl eu huwchraddio, bydd yr asedau cyhoeddus hyn ar gael i weithredwyr masnachol trwy Gytundebau Mynediad Agored nad ydynt yn unigryw.

Bydd Cynllun Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus yn cynnwys nodi mathau o asedau a lleoliadau sydd angen eu gwella, sefydlu proses glir ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad, cydlynu gyda thimau ystadau a gwaith stryd i ddiffinio manylebau technegol, caffael gwaith angenrheidiol, a rheoli cyflawni prosiectau gwella asedau. Anogir ymgeiswyr Cynllun Grant Diwydiant 4G+, lle bo hynny'n briodol, i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a chydlynu gweithgareddau ar safleoedd lle gallai buddsoddiad fod ar gael drwy'r ddau gynllun.

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi'r broses ar gyfer cyflwyno cais i Gynllun Grant Diwydiant 4G+ (y '**Cynllun**'), yn esbonio'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu ceisiadau a phenderfynu a ddylid dyfarnu grantiau, ac yn disgrifio'r hawliadau a'r prosesau monitro ar gyfer derbynwyr grantiau.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf.

### 1.4 Ystyriaethau Hanfodol i bob Ymgeisydd

Cynghorir ymgeiswyr i ystyried y materion a nodir isod cyn penderfynu a ddylid cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i'r Cynllun:

#### 1.4.1 Cystadleuaeth

Nid yw cyflwyno cais i Gynllun Grant Diwydiant 4G+ yn rhoi hawl i unrhyw ymgeisydd dderbyn grant yn awtomatig. Mae'r Cynllun yn gweithredu ar sail gystadleuol a bydd cyllid yn cael ei gynnig i'r ceisiadau sydd â'r sgôr uchaf a gyflwynir ym mhob rownd, ar yr amod eu bod yn bodloni'r egwyddorion a'r meini prawf a nodir isod i raddau digonol. Mae'r penderfyniad i ddyfarnu grant neu beidio yn ôl disgresiwn llwyr Uchelgais Gogledd Cymru.

### 1.4.2 Gofynion cyllid cyfatebol

Mae grantiau a ddyfernir drwy'r Cynllun wedi'u cynllunio i roi cymhorthdal o hyd at 65% o gost gymwys pob prosiect. Felly, mae angen cyllid cyfatebol gan bob derbynnydd grant sy'n cyfateb i o leiaf 35% o gost y prosiect (gweler adran 2.1.4).

### 1.4.3 Tryloywder ariannol

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth ariannol fanwl i gefnogi eu cais a all gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif fel cyfrifiadau enillion ar fuddsoddiad (ROI) neu ragolygon ariannol. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gofyn am wybodaeth o'r fath i sicrhau bod y Cynllun a'r holl grantiau a ddyfarnwyd drwy'r Cynllun yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau (gweler adran 2.1.15). Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn trin yr holl wybodaeth o'r fath fel un sy'n gwbl gyfrinachol (gweler adran 2.1.18).

### 1.4.4 Ffioedd

Codir ffi ar dderbynwyr grant i wrthbwyso rhan o gostau gweinyddu'r Cynllun. Mae'r ffi yn cyfateb i 3% o swm y grant, yn amodol ar isafswm o £2,000 ac uchafswm o £20,000 heb gynnwys TAW ac mae'n daladwy gan dderbynnydd y grant ar ôl llofnodi'r Cytundeb Cyllid Grant.

### 1.4.5 Gofynion perfformiad

Bydd meini prawf perfformiad gofynnol yn cael eu cytuno rhwng UGC a derbynwyr grantiau gan gynnwys gwasanaeth effeithiol, capasiti rhwydwaith, a threfniadau boddhaol ar gyfer datrys materion a diffygion rhwydwaith. Bydd tystiolaeth o gydymffurfio â'r meini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt yn ofyniad gorfodol a bydd UGC yn cynnal gwerthusiadau perfformiad cyfnodol i ddilysu deilliannau.

# 2 Egwyddorion a Meini Prawf y Cynllun

## 2.1 Meini Prawf Cymhwysedd ac Asesu

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu a'u sgorio yn erbyn yr egwyddorion a'r meini prawf a nodir isod. Nid oes proses apelio ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus, ond bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnig adborth i bob ymgeisydd aflwyddiannus ym mhob cam o'r broses ymgeisio.  Mae croeso i ymgeiswyr aflwyddiannus wneud cais eto, yn amodol ar barhad y Cynllun.

Sylwch nad oes gan y drefn y rhestrir y meini prawf isod unrhyw arwyddocâd o ran eu pwysigrwydd cymharol i'r broses asesu na'r sgorio.  Ar gyfer pob cais, y meini prawf sy'n cario'r pwysau mwyaf yw **gwerth am arian a chyflawnadwyedd prosiect.**

### 2.1.1 Cymhwysedd ymgeisydd

Mae'r Cynllun wedi'i anelu at Weithredwyr Rhwydwaith Symudol ('**MNOs**'), hosts niwtral a darparwyr seilwaith, ond mae'n agored i unrhyw sefydliad sy'n gallu cyflawni prosiect sy'n bodloni'r meini prawf ac eithrio gwerthwyr risg uchel fel y'u diffinnir yng nghyngor y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar ddefnyddio offer gan werthwyr risg uchel yn rhwydweithiau telathrebu'r DU: https://www.ncsc.gov.uk/guidance/ncsc-advice-on-the-use-of-equipment-from-high-risk-vendors-in-uk-telecoms-networks.  Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw sefydliadau Rwsiaidd a Belarwsiaidd yn gymwys.

Gall prosiectau gynnwys dull cydweithredol rhwng sawl sefydliad (megis lle mae MNO yn gweithio gydag un neu fwy o hosts niwtral neu ddarparwyr seilwaith eraill), ond rhaid i'r cais gael ei wneud gan un sefydliad arweiniol sy'n gallu ymrwymo i Gytundeb Cyllid Grant ('**GFA**') gydag Uchelgais Gogledd Cymru. Yn achos ceisiadau cydweithredol, rhaid enwi pob sefydliad yn y cydweithrediad yn y cais a rhaid esbonio'r rôl y byddant yn ei chwarae wrth gyflawni'r prosiect yn llawn. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau arweiniol ymrwymo i gytundeb cydweithredu gyda'r sefydliadau eraill a enwir yn y cais. Rhaid i gytundebau cydweithredu gynnwys yr holl ddarpariaethau cyfreithiol angenrheidiol a rhaid iddynt fodloni gofynion y Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (gweler 2.1.15). Rhaid darparu copi o'r cytundeb cydweithredu i Uchelgais Gogledd Cymru fel amod cynsail.

Sylwch nad yw dim ond allanoli elfennau o gyflawni prosiect i gyflenwyr gyfystyr â chydweithrediad. Pan ddefnyddir cyflenwyr, rhaid iddynt gael eu caffael yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru (gweler 2.1.7).

Rhaid i hosts niwtral fod yn gweithio gyda gweithredwr rhwydwaith ac mae'n ofynnol iddynt nodi'r gweithredwr rhwydwaith yn y datganiad o ddiddordeb/cais.

Rhaid i bob ymgeisydd gael eu cofrestru o dan God Cyfathrebu Electronig Ofcom https://www.ofcom.org.uk/phones-and-broadband/telecoms-infrastructure/register a chydymffurfio ag Amodau Hawliau Cyffredinol Ofcom (neu ddal yswiriant rheoleiddiol cyfatebol).  Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar gofrestriad UVDB neu fod yn rhag-gymwys trwy unrhyw fframweithiau neu blatfformau caffael.

### 2.1.2 Lleoliad y prosiect

Rhaid i bob prosiect fod wedi'i leoli yng ngogledd Cymru, yn cynnwys siroedd Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Nid yw prosiectau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardaloedd awdurdodau lleol hyn yn gymwys. Gall buddsoddiad y tu allan i ogledd Cymru hefyd fod yn gymwys os yw'n angenrheidiol i'r prosiect gyflawni ei amcanion rhanbarthol. Rhaid nodi, disgrifio a chostio unrhyw fuddsoddiad o'r fath y tu allan i'r rhanbarth yn glir yn y cais.

### 2.1.3 Gweithgaredd newydd

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i alluogi prosiectau newydd na ellir eu cynnal heb gymhorthdal. Ni ellir rhoi cymorth ar gyfer gweithgareddau neu weithgareddau parhaus neu 'busnes fel arfer' sydd eisoes wedi dechrau neu y mae ymrwymiad ariannol eisoes wedi'i wneud iddynt. Gall ceisiadau gynnwys costau sy'n gysylltiedig ag asedau presennol sy'n eiddo i'r ymgeisydd (neu un neu fwy o'r cydweithwyr yn achos ceisiadau cydweithredol) lle mae asedau o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

### 2.1.4 Argaeledd cyllid gan gynnwys arian cyfatebol

Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i roi cymhorthdal o hyd at 65% o gostau cyfalaf cymwys y prosiect a rhaid i'r derbynnydd grant ariannu balans cost y prosiect. Rhaid i dderbynwyr grant hefyd dalu am gost gyfan y prosiect, gan fod grantiau'n cael eu talu mewn ôl-ddyledion. Felly, mae angen o leiaf 35% o gyllid cyfatebol gan bob derbynnydd grant. Gellir hawlio'r grant mewn rhandaliadau yn seiliedig ar wariant cymwys a gafwyd a cherrig milltir perfformiad a gyflawnwyd, fel y darperir ar eu cyfer yn y GFA. Bydd prosiectau sy'n cynnig cyfran uwch o ymrwymiad ariannol (arian cyfatebol) yn denu sgôr uwch.

### 2.1.5 Hyfywedd ariannol

Rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio fod yn ariannol hyfyw yn seiliedig ar eu perfformiad ariannol diweddar a'u sefyllfa fantolen fel y dangosir yn natganiadau ariannol y tair blynedd ddiwethaf a'r cyfrifon rheoli cyfredol o'r flwyddyn hyd yma, y mae'n rhaid darparu copïau ohonynt gyda'r cais. Lle bo'n berthnasol, bydd hyfywedd ariannol y rhiant-gwmni hefyd yn cael ei ystyried.

### 2.1.6 Cymhwysedd gwariant prosiect

Mae'r Cynllun yn gronfa grant cyfalaf a gall cymorth grant fynd tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn asedau diriaethol yn unig; nid yw costau refeniw yn gymwys ar gyfer cymorth grant, ac ni chaniateir defnyddio gwerthwyr risg uchel (gweler 2.1 am restr lawn o weithgareddau a chostau anghymwys).

Y costau y gellir rhoi cymhorthdal iddynt gyda grantiau fydd y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â sefydlu neu wella cwmpas 4G/5G i gychwyn, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Seilwaith colofn.
- Cysylltiad ffibr optig.
- Cysylltiad pŵer.
- Offer radio.
- Eitemau eraill fel cypyrddau stryd lle bo angen.
- Costau dylunio, gosod a rheoli prosiect sy'n gysylltiedig â datblygu'r ased cyfalaf.

Bydd costau gweithredol yn cael eu talu'n gyfan gwbl gan y buddiolwr ac ni fydd unrhyw gymhorthdal ar gael ar gyfer y rhain.

Rhaid rhannu gwariant prosiect cymwys yn y categorïau canlynol yn y cais a'r hawliadau grant:

- Offer a chyflenwadau.
- Costau llafur ar gyfer rheoli a gweithredu prosiectau, p'un a ydynt wedi'u darparu gan weithwyr derbynnydd y grant eu hunain neu wedi'u rhoi ar gontract allanol i gyflenwr trydydd parti.

### 2.1.7 Caffael

Rhaid i gyflenwyr gael eu caffael yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru: [egwyddorion-caffael-ionawr-23.pdf](egwyddorion-caffael-ionawr-23.pdf)

Ar gyfer pob contract a ddyfarnwyd gyda chyfanswm gwerth uwch na £75,000, rhaid paratoi a chyflwyno Adroddiad Gwerthuso Cryno. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys yr elfennau canlynol:

- Disgrifiad o Nwyddau/Gwasanaethau: Trosolwg cryno o'r nwyddau neu'r gwasanaethau a gaffaelwyd.
- Crynodeb o'r Broses Gaffael: Amlinelliad byr o'r weithdrefn gaffael a ddilynwyd, gan gynnwys camau allweddol a phwyntiau penderfynu.
- Crynodeb o'r Gwerthuso: Crynodeb o'r meini prawf gwerthuso a gymhwyswyd a deilliannau'r broses asesu.
- Argymhelliad Dyfarniad: Cyfiawnhad clir i'r cyflenwr neu'r contractwr a argymhellir, yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwerthuso.

Rhaid cadw'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r broses gaffael a'i storio'n ddiogel, gan y gallai fod yn destun archwiliad neu adolygiad cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

### 2.1.8 Addasrwydd strategol

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar gyfer pa mor dda maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Cynllun, sydd fel a ganlyn:

- Cynyddu gwasanaeth a pherfformiad 4G+ mewn lleoliadau sydd heb eu gwasanaethu. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn nodi lleoliadau y mae'n eu hystyried yn flaenoriaethau, a gwahoddir ymgeiswyr i awgrymu lleoliadau eraill lle gellir cyflawni prosiectau a fydd o fudd i nifer fawr o ddefnyddwyr posibl. Bydd prosiectau sy'n cynnig y cynnydd mwyaf mewn gwasanaeth a pherfformiad 4G+ yn denu sgôr uwch.
- Sicrhau bod gogledd Cymru wedi'i harfogi ar gyfer symud i ddarpariaeth 5G o dan 6GHz pan fo'r MNOs yn uwchraddio eu rhwydweithiau. Bydd prosiectau wedi'u cynllunio i fod yn addas ar gyfer y dyfodol yn denu sgôr uwch.
- Gwneud y mwyaf o fudd i economi gogledd Cymru. Bydd prosiectau sy'n cynnig y budd mwyaf i'r economi leol (fel y rhai sy'n cynnig symiau mawr o gyllid cyfatebol gan y sector preifat a'r rhai sy'n defnyddio cyflenwyr yng ngogledd Cymru) yn denu sgôr uwch. Bydd effaith economaidd hefyd yn cael ei hasesu ar sail nifer y defnyddwyr sydd i'w gwasanaethu gan seilwaith gwell.

### 2.1.9 Deilliannau mandadol

Rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy'r Cynllun gynhyrchu'r deilliannau isod.

- **Cynnydd mesuradwy mewn gwasanaeth a pherfformiad 4G neu 5G** wedi'i fesur gan gynnydd yn nifer y defnyddwyr sy'n derbyn gwasanaeth symudol effeithiol. Ni ddylai gwelliannau mewn gwasanaeth a pherfformiad mewn un lleoliad arwain at unrhyw ddirywiad mewn gwasanaeth neu berfformiad yn yr ardal ehangach, a bydd gofyn i ymgeiswyr esbonio sut y bydd eu prosiect yn cyflawni'r amcan hwn. Bydd disgwyl i dderbynwyr grant hefyd wella perfformiad yn erbyn y meini prawf hyn dros amser i gadw i fyny â datblygiadau technolegol. Rhaid i berfformiad bob amser fod yn unol ag unrhyw safon isafswm perthnasol Ofcom neu'n fwy na hynny (gweler 5).

- **Swyddi a grëir** yn cael ei fesur gan nifer y swyddi newydd nad oeddent yn bodoli o'r blaen yng ngogledd Cymru a grëwyd oherwydd y buddsoddiad yn ystod neu ar ôl cyfnod cyfalaf y prosiect.

- **Llai o allyriadau carbon** yn cynnwys elfennau cyfwerth â charbon deuocsid gweithredol ac ymgorfforedig.

- **Gwerth cymdeithasol** fel y'i cynigir gan yr ymgeisydd grant. Rhaid i ymgeiswyr ddisgrifio sut y bydd y gwerth cymdeithasol yn cael ei gyflawni ac esbonio sut y bydd yn cael ei fesur. Mae gwerth cymdeithasol yn cyfrif am 15% o sgôr y cais ym mhob achos.

Bydd prosiectau sy'n cynnig y deilliannau gorau yn denu sgôr uwch. Bydd y deilliannau y cytunwyd arnynt ar gyfer pob prosiect, a'r dyddiadau erbyn pryd fydd angen cyflawni'r deilliannau a'u tystiolaethu i Uchelgais Gogledd Cymru, yn cael eu nodi yn y GFA. Rhaid cyflawni holl ddeilliannau'r Cynllun erbyn diwedd mis Mawrth 2036.

### 2.1.10 Deilliannau ychwanegol

Yn ogystal â'r allbynnau mandadol a restrir uchod, gall prosiectau gyfrannu at ystod o ddeilliannau gan gynnwys gwell bioamrywiaeth. Gwahoddir ymgeiswyr i gynnig deilliannau ychwanegol fel bo'n briodol, a bydd prosiectau sy'n cynnig y deilliannau ychwanegol mwyaf yn denu sgôr uwch. Bydd y deilliannau ychwanegol y cytunwyd arnynt ar gyfer pob prosiect, a'r dyddiadau erbyn pryd fydd angen cyflawni'r deilliannau a'u tystiolaethu i Uchelgais Gogledd Cymru, yn cael eu nodi yn y GFA. Rhaid cyflawni holl ddeilliannau ychwanegol y Cynllun erbyn diwedd mis Mawrth 2036.

### 2.1.11 Gwerth am arian

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu am y graddau y maent yn cynnig gwerth am arian, a fydd yn cael ei fesur yn bennaf trwy rannu'r nifer amcangyfrifedig o ddefnyddwyr ychwanegol fydd yn elwa o fwy o wasanaeth symudol a pherfformiad yn ôl swm y grant y gofynnwyd amdano. Gwahoddir ymgeiswyr i gynnig y mathau o welliannau perfformiad i'w cyflawni gan eu prosiect (e.e. o ran RFSP, cwmpas gofodol, lled band, oedi, trwybwn, capasiti, cryfder signal ac ati) ac esbonio sut y bydd y prosiect yn cyflawni'r gwelliannau hyn a rhagweld nifer y defnyddwyr ychwanegol a fydd yn elwa. Bydd prosiectau sy'n cynnig y gwerth mwyaf am arian yn denu sgôr uwch.

### 2.1.12 Cyflawnadwyedd y prosiect

Rhaid i gynigion fod yn dechnegol hyfyw a chynnig dull addas o gynnal a chadw a hirhoedledd yr asedau. Rhaid i brosiectau fod wedi'u cynllunio'n dda ac yn gyflawnadwy o fewn yr amserlen a gynigir, a rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt gynllun prosiect digonol ar waith gan gynnwys asesiad trylwyr o risgiau, rhagdybiaethau a dibyniaethau gan gynnwys yr holl ganiatâd a chymeradwyaethau a allai fod eu hangen. Rhaid i gynllun y prosiect hefyd ddangos argaeledd personél addas gyda'r profiad, y gallu a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni'r prosiect ar amser ac yn unol â'r gyllideb. Rhaid i geisiadau hefyd fod â chofrestr risg sy'n nodi'r risgiau allweddol a'r mesurau lliniaru ymarferol. Bydd ceisiadau sydd â chynllun prosiect cadarn ac sy'n dangos profiad diweddar o gyflawni prosiectau tebyg yn denu sgôr uwch.

### 2.1.13 Amserlen y prosiect

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu amcangyfrif realistig o'r amser sydd ei angen i gwblhau'r prosiect a rhaid darparu cynllun cyflawni'r prosiect gyda cherrig milltir a dyddiadau allweddol gyda'r cais. Rhaid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen a nodir yn y GFA, a rhaid i bob prosiect gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2030 a rhaid talu'r holl grantiau erbyn diwedd mis Mawrth 2030.

### 2.1.14 Technoleg

Mae'r Cynllun yn dilyn dull technoleg-agnostig, ond bydd prosiectau sy'n defnyddio datrysiadau technoleg profedig, fydd yn addas ar gyfer y dyfodol yn denu sgôr uwch. Rhagwelir y gallai rhai prosiectau gynnwys 5G yn disodli 4G. Rhaid i bob gosodiad fod â hyd oes disgwyliedig digonol a rhaid iddo allu gweithredu'n effeithiol tan o leiaf Mawrth 2036. Os oes angen ailosod neu uwchraddio unrhyw offer cyn diwedd mis Mawrth 2036, cyfrifoldeb derbynnydd y grant fydd y gost gysylltiedig lawn.

### 2.1.15 Rheoli Cymorthdaliadau

Mae cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru yn dod i'r casgliad bod yr holl grantiau a roddir drwy'r Cynllun yn gymorthdaliadau oherwydd eu bod yn bodloni'r profion a nodir yn Neddf Rheoli Cymorthdaliadau (**'y Ddeddf'**). Er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau tryloywder a nodir yn y Ddeddf, bydd y Cynllun yn cael ei gofrestru yn y gronfa ddata cymorthdaliadau a gynhelir gan yr Adran Busnes a Masnach. Ma gofyn i Uchelgais Gogledd Cymru gyhoeddi manylion yr holl grantiau unigol dros £100,000 yn y gronfa ddata o fewn 3 mis o'u caniatáu.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r grant a ddyfarnwyd ar gyfer pob prosiect gael ei gyfyngu i'r isafswm sy'n angenrheidiol i wneud y prosiect yn fasnachol hyfyw, a rhaid i'r Cynllun gynhyrchu buddsoddiad yn y sector preifat (arian cyfatebol) o 35% o leiaf o'r gwariant cymwys a achoswyd. Felly, rhaid i Uchelgais Gogledd Cymru fod yn fodlon bod swm y grant y gofynnir amdano yn gymesur ac yn angenrheidiol a rhaid i ymgeiswyr ddarparu esboniad clir a chredadwy o sut mae'r swm y maent yn gofyn amdano wedi'i gyfrifo a pham mai dyma'r lleiafswm angenrheidiol i wneud y prosiect yn fasnachol hyfyw. Rhaid darparu tystiolaeth i gefnogi'r cyfrifiadau, e.e. cyfrifiadau enillion ar fuddsoddiad (ROI). Rhaid nodi'n glir yr holl gyfrifiadau o'r fath, rhaid esbonio a chyfiawnhau rhagdybiaethau sylfaenol gyda thystiolaeth, a rhaid sicrhau bod unrhyw sensitifrwydd sydd wedi'i gymhwyso yn glir.

Bydd swm y grant sy'n daladwy yn cael ei gapio ar y swm a bennir yn y GFA, ac os yw cost y prosiect yn fwy na'r gwariant a ragwelir, cyfrifoldeb derbynnydd y grant fydd y costau ychwanegol. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar Uchelgais Gogledd Cymru i dalu unrhyw swm tuag at or-redeg costau. Os yw cost y prosiect yn llai na'r gwariant a ragwelir, bydd swm y grant sy'n daladwy yn gostwng *pro*

*rata* yn gymharol â'r gostyngiad mewn gwariant i sicrhau nad yw'r cymhorthdal yn fwy na'r isafswm angenrheidiol. Ym mhob achos, y grant sy'n daladwy fydd naill ai'r uchafswm a bennir yn y GFA neu'r gyfran gyfatebol o'r gwariant cymwys a achoswyd, pa un bynnag fydd y lleiaf.
Ni fydd cyfanswm y swm sy'n daladwy i unrhyw dderbynnydd/sefydliad grant yn fwy na £1 miliwn ym mhob rownd ariannu'r Cynllun.

#### 2.1.16 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad

Rhaid i dderbynwyr grant hyrwyddo cydraddoldeb yn weithredol a rhaid iddynt beidio â gwahaniaethu yn erbyn unigolion neu grwpiau ar sail ethnigrwydd, anabledd, oedran, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, neu statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

#### 2.1.17 Diwydrwydd Dyladwy

Mae pob ymgeisydd yn destun proses diwydrwydd dyladwy ac asesiad risg Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n cynnwys defnyddio Spotlight, teclyn diwydrwydd dyladwy awtomataidd ar-lein y llywodraeth.

#### 2.1.18 Preifatrwydd a chyfrinachedd

Bydd Data Personol a gwybodaeth fusnes ymgeiswyr yn cael eu storio'n ddiogel, eu cadw'n gyfrinachol a'u prosesu yn unol â [Hysbysiad Preifatrwydd Uchelgais Gogledd Cymru](#).

### 2.2 Gweithgareddau a Chostau Anghymwys

Nid yw'r gweithgareddau a'r costau isod yn gymwys i gael cymorth grant (efallai na fydd y rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Unrhyw daliad i gyflenwr nad yw'n cael ei gaffael yn unol ag egwyddorion caffael Uchelgais Gogledd Cymru.

- Unrhyw gyfranogiad gan werthwr risg uchel fel y'i diffinnir yng nghyngor y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar ddefnyddio offer gan werthwyr risg uchel yn rhwydweithiau telathrebu'r DU: https://www.ncsc.gov.uk/guidance/ncsc-advice-on-the-use-of-equipment-from-high-risk-vendors-in-uk-telecoms-networks.

- Unrhyw nwyddau neu wasanaethau sy'n tarddu o ffynhonnell Rwsiaidd neu Felarwsiaidd.

- Unrhyw weithgaredd sydd wedi dechrau neu gost a achoswyd cyn dyddiad dechrau'r prosiect a ddangosir yn y Cytundeb Cyllid Grant (GFA) ac eithrio unrhyw asedau presennol i'w defnyddio ar gyfer y prosiect gyda chytundeb Uchelgais Gogledd Cymru ac fel y nodir yn y GFA.

- Unrhyw weithgaredd y mae cyllid cyhoeddus arall wedi'i dderbyn neu ei ddyfarnu ar ei gyfer.

- Unrhyw weithgaredd nad yw o fewn cwmpas Amodau Hawliau Cyffredinol Ofcom neu yswiriant rheoleiddiol cyfatebol.

- Costau refeniw fel costau rhedeg busnes a gorbenion nad ydynt yn uniongyrchol briodol i'r prosiect neu nad ydynt yn gymwys i gael eu cyfalafu o dan reolau cyfrifyddu cwmnïau'r DU.

- Gweithgareddau arferol, gan gynnwys y rhai sy'n bodloni gofyniad statudol neu reoleiddiol (e.e. paratoi cyfrifon ariannol, ffioedd archwilio, gwasanaethau adnoddau dynol arferol ac ati).
- Taliadau banc a chyllid eraill, a llog dyled.
- TAW y gellir ei adfer.
- Cronfeydd wrth gefn.
- Dibrisiant.
- Unrhyw weithgaredd a allai ddwyn anfri ar Uchelgais Gogledd Cymru neu unrhyw un o'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru.

# 3 Y Broses Ymgeisio

## 3.1 Trosolwg o'r Broses

Bydd y Cynllun yn gweithredu mewn cyfres o rowndiau ariannu, gyda phob rownd yn rhedeg dros gyfnod o 6-12 mis. Bwriedir i'r rownd gyntaf agor ym mis Mehefin 2026 a bydd y dyddiadau allweddol ar gyfer pob rownd yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw.

Mae pob rownd ariannu yn cynnwys cam mynegi diddordeb (EOI) a cham ymgeisio. Mae yna gyfnod o 4 wythnos ar gyfer cyflwyno EOIs ac yna cyfnod asesu lle bydd ymgeiswyr y mae eu EOIs wedi'u cymeradwyo yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais. Cyfanswm yr amser fydd wedi mynd heibio o'r dyddiad pan agorir y ffenestr EOI i'r dyddiad pan hysbysir ymgeiswyr o'r canlyniad fydd 10-12 wythnos ar gyfer pob rownd.

Mae'r cam ymgeisio ym mhob rownd ariannu yn dechrau pan fydd ymgeiswyr y mae eu EOIs wedi'u cymeradwyo wedi cael eu hysbysu a'u gwahodd i gyflwyno cais. Mae yna gyfnod o 4 wythnos ar gyfer cyflwyno ceisiadau ac ar ôl hynny bydd pob cais yn cael ei asesu, a bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar ba geisiadau fydd yn cael cynnig grant.

Ni all Uchelgais Gogledd Cymru dderbyn cais oni bai bod EOI ar gyfer yr un prosiect wedi'i gyflwyno gan yr un ymgeisydd a'i gymeradwyo yn y rownd honno. Nid oes proses apêl yn y cam EOI na'r cam ymgeisio, ond cynigir adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, a chroesawir rhagor o EOIs gan ymgeiswyr aflwyddiannus mewn rowndiau cyllido dilynol.

## 3.2 Cam Datganiad o Ddiddordeb (EOI)

### 3.2.1 Safleoedd targed

Ar gyfer pob rownd, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cyhoeddi rhestr o leoliadau y mae'n eu hystyried yn safleoedd blaenoriaeth, a bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i fynegi diddordeb mewn prosiectau yn y lleoliadau hyn. Gwahoddir EOIs hefyd ar gyfer prosiectau mewn lleoliadau eraill a nodwyd gan ymgeiswyr lle gellir cyflawni prosiectau a fydd yn cyflawni amcanion strategol y Cynllun

ac o fudd i nifer fawr o ddefnyddwyr posibl. Ar gyfer pob safle blaenoriaeth, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cyhoeddi taflen ffeithiau fydd yn darparu gwybodaeth sydd ar gael i ymgeiswyr gan gynnwys perchnogaeth, caniatâd, hawliau mynediad neu Gytundebau Mynediad Agored, argaeledd cysylltiadau pŵer a *backhaul*, ac arwyddion o'r galw.

#### 3.2.2 Cyflwyniad EOI

Mae ffurflenni EOI ar gael drwy'r Porth "Find a Grant" Llywodraeth DU. Rhaid cyflwyno EOIs ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno, sef 4 wythnos ar ôl i'r rownd ariannu agor. Cysylltwch â thîm Uchelgais Gogledd Cymru ar y cyfeiriad e-bost isod digidol@uchelgaisgogledd.cymru/ digital@ambitionnorth.wales os ydych eisiau trafod eich EOI cyn i chi gyflwyno.

#### 3.2.3 Asesiad EOI

Bydd EOIs yn cael eu hasesu gan Uchelgais Gogledd Cymru yn unol â'r egwyddorion a'r meini prawf a nodir yn Adran 2.1. Os oes gan dîm asesu Uchelgais Gogledd Cymru unrhyw ymholiadau am yr EOI neu angen mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd, byddant yn cysylltu â'r person a enwir yn y ffurflen EOI.

#### 3.2.4 Penderfyniad EO

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am ganlyniad eu EOI ar neu cyn y dyddiad cyhoeddi, a bydd y rhai y mae eu EOIs wedi'u cymeradwyo yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais. Bydd ymgeiswyr nad yw eu EOIs yn cael eu cymeradwyo yn cael adborth ac mae croeso iddynt gyflwyno EOI newydd mewn rownd ariannu ddilynol, ond nid oes proses apelio.

### 3.3 Cam Gwneud Cais

#### 3.3.1 Cyflwyno cais

Dim ond sefydliadau y mae eu EOI wedi'i gymeradwyo yn y rownd ariannu bresennol all gyflwyno cais yn y rownd honno, a rhaid i'r cais fod ar gyfer yr un prosiect â'r EOI a gymeradwywyd yn y rownd honno. Gall ymgeiswyr gynnig mân newidiadau i'r prosiect yn y cam ymgeisio, megis cynyddu neu leihau costau'r prosiect neu swm y grant neu newid y canlyniadau a ragwelir. Rhaid esbonio pob newid o'r fath yn y ffurflen gais a'r cyfiawnhad a ddarperir. Ni dderbynnir unrhyw gynnydd yn swm y grant y gofynnwyd amdano neu ostyngiad yn y canlyniadau a ragwelir o fwy na 10% fel arfer. Cyflwynnir ceisiadau drwy Porth "Find a Grant" Llywodraeth DU. Rhaid cyflwyno ceisiadau ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer cyflwyno, sef 4 wythnos ar ôl i'r ffenestr ymgeisio agor. Cysylltwch â thîm Uchelgais Gogledd Cymru ar y cyfeiriad e-bost isod digidol@uchelgaisgogledd.cymru / digital@ambitionnorth.wales os ydych eisiau trafod eich cais cyn i chi gyflwyno.

#### 3.3.2 Asesu cais

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu gan Uchelgais Gogledd Cymru yn unol â'r egwyddorion a'r meini prawf a nodir yn Adran 2.1 ac os fydd gan dîm asesu Uchelgais Gogledd Cymru unrhyw ymholiadau gyda'r cais neu angen mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd, byddant yn cysylltu â'r person a enwir yn y ffurflen gais.

### 3.3.3 Penderfyniad ar y cais

Ar ôl asesu'r ceisiadau, bydd penderfyniadau i ddyfarnu grantiau neu beidio yn cael eu gwneud yn unol â chynllun dirprwyo Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu am ganlyniad eu cais ar neu cyn y dyddiad cyhoeddi, a rhoddir GFA i'r rhai y mae eu ceisiadau wedi'u cymeradwyo. Bydd ymgeiswyr nad yw eu ceisiadau yn cael eu cymeradwyo yn cael adborth ac mae croeso iddynt gyflwyno EOI newydd mewn rownd ariannu ddilynol, ond nid oes proses apelio.

# 4 Proses Dyfarnu ac Ôl-ddyfarnu

## 4.1 Cytundeb Cyllid Grant (GFA)

### 4.1.1 Templed GFA

Mae copi o dempled GFA ar gyfer y Cynllun wedi'i atodi er gwybodaeth yn Atodiad 1. Dylai ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'r templed a sicrhau bod eu sefydliad yn gallu ymrwymo i gytundeb ag Uchelgais Gogledd Cymru ar y telerau a'r amodau hyn cyn cyflwyno EOI.

### 4.1.2 Atodlen 1 GFA Telerau ac Amodau

Mae'r Telerau ac Amodau a nodir yn Atodlen 1 y GFA yn berthnasol i bob grant ac nid ydynt yn drafodadwy.

### 4.1.3 Atodlen 2 GFA Deilliannau a Cherrig Milltir

Mae'r canlyniadau a'r cerrig milltir ar gyfer y prosiect wedi'u nodi yn Atodlen 2 ynghyd â'r dyddiadau y mae'n rhaid eu cyflawni yn eu herbyn. Bydd 5% o'r grant yn cael ei gadw nes bod y canlyniadau wedi'u gwirio gan Uchelgais Gogledd Cymru (gweler Adran 2.17) a gall methiant i gyflawni'r canlyniadau neu'r cerrig milltir erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt arwain at rywfaint neu'r cyfan o'r grant yn cael ei atal neu ei adennill yn ôl.

### 4.1.4 Atodlen 3 GFA Rhagolwg Gwariant

Mae'r rhagolwg gwariant ar gyfer y prosiect wedi'i nodi yn Atodlen 3. Pan fydd cost y prosiect yn fwy na'r Rhagolwg Gwariant, bydd y costau ychwanegol yn gyfrifoldeb i'r derbynnydd grant ac ni fydd gan Uchelgais Gogledd Cymru unrhyw rwymedigaeth i dalu mwy na'r Uchafswm a bennir yn y GFA. Pan fydd cost y prosiect yn llai na'r Rhagolwg Gwariant, bydd swm y grant sy'n daladwy yn lleihau *pro rata* yn gymharol â'r gostyngiad mewn gwariant. Felly, y grant sy'n daladwy fydd naill ai'r Uchafswm a bennir yn y GFA, neu'r gyfran gyfatebol o'r gwariant cymwys a achoswyd, pa un bynnag fydd y lleiaf.

### 4.1.5 Ffi GFA

Mae ffi yn daladwy ar ôl llofnodi'r GFA. Mae'r ffi yn cyfateb i 3% o swm y grant, yn amodol ar isafswm o £2,000 ac uchafswm o £20,000 heb gynnwys TAW. Mae'n ofynnol talu'r ffi hon o fewn 30 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r cytundeb.

## 4.2 Cychwyn a Chyflawni'r Prosiect

### 4.2.1 Cyfarfod Cychwyn y Prosiect

Ar ôl i'r GFA gael ei lofnodi, cynhelir Cyfarfod Cychwyn Prosiect (PIM) rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a'r derbynnydd grant lle bydd trefniadau monitro ac adrodd y prosiect a'r broses hawlio yn cael eu hesbonio, a bydd cyfarfodydd adolygu cyfnodol yn cael eu trefnu.

### 4.2.2 Monitro ac adrodd ar brosiectau

Bydd yn ofynnol i dderbynwyr grant gyflwyno adroddiadau monitro rheolaidd i Uchelgais Gogledd Cymru mewn fformat ac ar ddyddiadau y cytunir arnynt yn y PIM.

### 4.2.3 Newidiadau i'r prosiect

Rhaid i dderbynwyr grant hysbysu Uchelgais Gogledd Cymru cyn gynted â phosibl o unrhyw newidiadau y byddant am eu gwneud i'r prosiect gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau i unrhyw un o'r isod:

- Allbynnau neu ddeilliannau
- Cerrig Milltir
- Dyddiad cychwyn, dyddiad gorffen neu ddyddiad cwblhau targed
- Rhagolwg Gwariant a/neu ariannu'r Prosiect

Bydd ceisiadau am newidiadau yn cael eu cynnal drwy Broses Rheoli Newid Uchelgais Gogledd Cymru (ar gael ar gais). Rhaid cytuno ar bob newid o'r fath yn ysgrifenedig ag Uchelgais Gogledd Cymru cyn iddynt ddod i rym a phennir bod y GFA wedi'i amrywio i ystyried y newidiadau y cytunwyd arnynt drwy gyfnewid gohebiaeth ysgrifenedig.

## 4.3 Hawliadau

### 4.3.1 Proses hawlio

Rhaid cyflwyno ceisiadau grant yn unol â Phroses Hawlio Grant Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru (gellir darparu'r broses ar gais). Bydd derbynwyr grant yn cael canllawiau ar y broses hon yn y PIM gan gynnwys cyfarwyddiadau ar sut a phryd y dylid cyflwyno ceisiadau a'r telerau talu fydd yn berthnasol. Mae'r grant yn daladwy mewn ôl-ddyledion yn seiliedig ar wariant prosiect cymwys a achoswyd ac a dalwyd fel y nodir yn Atodlen 3 y GFA. Pan ddarperir ar ei gyfer yn y GFA, gellir hawlio'r grant mewn rhandaliadau yn seiliedig ar broffil gwariant y prosiect.

### 4.3.2 Tystiolaeth hawliadau

Rhaid i hawliadau gael eu cefnogi gan y dystiolaeth ofynnol fel y nodir yn y canllawiau hawlio, wedi'i chrynhoi fel a ganlyn:

- Rhaid cefnogi hawliadau am offer, cyflenwadau a chostau llafur allanol a gaffaelir gan gyflenwyr trydydd parti gydag anfonebau cyflenwyr, tystiolaeth o dalu a chaffael yn unol ag Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru

  https://uchelgaisgogledd.cymru/media/lvod35ml/egwyddorion-caffael-ionawr-23.pdf

- Rhaid i hawliadau am ddefnyddio asedau presennol gael eu cefnogi gan dystiolaeth o werth yr asedau, esboniad o'r dull dibrisiant a ddefnyddir, a sut mae'r gost wedi'i dosrannu i'r prosiect.

- Rhaid cefnogi hawliadau am gostau llafur mewnol gyda thaflenni amser a chyfrifon prosiect. Rhaid i'r ymgeisydd gadw anfonebau a thystiolaeth hawliadau eraill am y cyfnod a nodir yn y GFA a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gofyn am samplau o'r rhain i gyd-fynd â phob hawliad.

# 5 Monitro a Gwerthuso

## 5.1 Gwirio perfformiad

Bydd meini prawf perfformiad gofynnol yn cael eu cytuno rhwng UGC a derbynwyr grantiau. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Gwasanaeth effeithiol mewn lleoliadau cyfeirio a nodwyd ymlaen llaw ac am gyfnod penodol ar ôl cwblhau'r gwaith cyfalaf a dyddiad comisiynu'r gwasanaeth newydd.
- Capasiti rhwydwaith digonol i alluogi'r gwasanaeth i gefnogi nifer benodol o ddefnyddwyr ar yr un pryd ar y trothwyon perfformiad lleiaf penodedig yr ymrwymwyd iddynt yng nghynigion y buddiolwyr.
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer datrys problemau a diffygion rhwydwaith.

Bydd tystiolaeth o gydymffurfiaeth â'r meini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt yn cael ei hunan-adrodd gan y buddiolwr ar gyfnodau y cytunwyd arnynt.

Bydd UGC hefyd yn cynnal gwerthusiadau perfformiad cyfnodol. Bydd anghydfodau mewn perfformiad a adroddir yn cael eu hystyried trwy ddilysu perfformiad gan drydydd parti annibynnol a nodwyd ar adeg dyfarnu'r cymhorthdal ac a fanylir yn y GFA. Byddai unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn "Ddigwyddiad Diffygdalu" a fyddai (yn amodol ar roi cyfle i'r derbynnydd grant gywiro'r diffyg) yn rhoi hawl i UGC derfynu'r GFA yn unol â chymal 11 ac adennill cyfran o'r cymhorthdal. Bydd gwerth y cymhorthdal adferadwy yn gostwng bob blwyddyn ar gyfradd o 10% o'r cymhorthdal gwreiddiol am ddeng mlynedd.

## 5.2 Monitro a gwerthuso

Ar ôl cyflwyno'r asedau rhwydwaith â chymhorthdal, bydd perfformiad y rhwydweithiau yn cael eu monitro ar adegau gan Uchelgais Gogledd Cymru i sicrhau bod derbynwyr y grant yn cydymffurfio â thelerau'r dyfarniad. Bydd 5% o'r grant yn cael ei gadw nes bod y gwelliannau a adroddwyd wedi'u gwirio gan Uchelgais Gogledd Cymru.

Bydd yn ofynnol i dderbynwyr grant gyflwyno hunan-ddatganiadau o berfformiad rhwydwaith ar sail 6 mis ar gyfer cyfnod cychwynnol y Cynllun (tan 2031) ac yna adroddiadau blynyddol ar gyfer gweddill tymor y GFA.

Bydd yn ofynnol i dderbynwyr grant adrodd ar berfformiad y rhwydwaith a faint o ddefnyddwyr sy'n cael mynediad i'r rhwydwaith a gefnogir ar gyfer pob cyfnod adrodd er mwyn galluogi amcangyfrif o raddfa'r buddion i gwsmeriaid. Bydd meintioli cwsmeriaid a wasanaethir yn galluogi gwerthusiad perfformiad y prosiect wrth gyflawni ei amcanion a chyflawni gwerth y buddion a ragwelir yn y cais am grant.

Rhaid cynnal gwelliannau mewn gwasanaeth a pherfformiad symudol am y cyfnod o amser y cytunwyd arno fel y nodir yn y GFA. Bydd y mesuriadau perfformiad a gynhaliwyd yn arolygon Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnwys cryfder signal, cyflymder uwchlwytho, cyflymder lawrlwytho ac oedi, wedi'u mesur gan ddefnyddio profion byd go iawn (e.e. cyfraddau trosglwyddo ffeiliau, defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, cyflymder llwytho tudalennau gwe ac ati). Rhaid i dderbynwyr grant wella perfformiad yn erbyn y meini prawf hyn dros amser i gadw i fyny â datblygiadau technolegol. Rhaid i berfformiad bob amser fod yn unol ag unrhyw isafswm safon perthnasol Ofcom.

### 5.3 Gwelliant parhaus a gwerthuso allanol

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn adolygu'r Cynllun yn barhaus yn ystod y cyfnod cyflawni i wneud addasiadau allai wella gwerth am arian ac effaith.  Bydd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn comisiynu gwerthusiad allanol diwedd prosiect a fydd yn gofyn am gydweithrediad derbynwyr grantiau.

## Atodiad 1. Templed Cytundeb Cyllid Grant

*[MAE'R CYTUNDEB HWN WEDI'I GYNLLUNIO I'W DDEFNYDDIO AR GYFER DERBYNWYR GRANT SECTOR PREIFAT YN UNIG]*

[Enw a Chyfeiriad Derbynnydd y Grant]

[DYDDIAD]

Annwyl [Enw Cyswllt y Derbynnydd Grant]

CYNLLUN GRANT DIWYDIANT 4G+ UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU - [Enw'r Prosiect]

Ysgrifennaf i'ch cynghori bod Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru sy'n cyflawni Cronfa Twf Gogledd Cymru fel Uchelgais Gogledd Cymru (" UGC ") wedi cytuno i gefnogi [Enw'r Prosiect] drwy ddarparu cyllid o'i Gynllun Grant Diwydiant 4G+ i [Derbynnydd y Grant] o hyd at [Uchafswm] cyllid ar y telerau a'r amodau a nodir isod (y "Grant").

Bydd y llythyr hwn a'r atodlenni atodol, gan gynnwys y Telerau a'r Amodau safonol a nodir yn Atodlen 1, yn ffurfio'r cytundeb rhwng [Derbynnydd y Grant] ac UGC (y "**Cytundeb**").

Mae'r wybodaeth allweddol ar gyfer y Grant arfaethedig wedi'i nodi yn y tabl isod. Rydym hefyd wedi rhestru termau diffiniedig sy'n benodol i'ch Cytundeb yn y golofn chwith. Pan fyddwn yn defnyddio'r diffiniadau hyn yn y Cytundeb hwn, mae ganddynt yr ystyr a roddir iddynt yn y golofn dde.

Yn y Cytundeb hwn, mae "Ni", "Ninnau" ac "Ein" yn cyfeirio at UGC, ac mae "Chi" ac "Eich" yn cyfeirio at [Derbynnydd y Grant].

Mae'r wybodaeth allweddol ar gyfer y Grant arfaethedig fel a ganlyn (a chyfeirir at y diffiniadau hyn trwy gydol y Cytundeb hwn):

| | |
|---|---|
| Uchafswm | [Cyfanswm y swm sy'n daladwy i Chi fydd £[ ] £[] |
| Derbynnydd y Grant ("Chi") | [Enw Derbynnydd y Grant, rhif cwmni (os yw'n berthnasol) a'r swyddfa gofrestredig] |
| Prosiect | [Enw'r Prosiect a nod y Prosiect] |
| Allbynnau a Cherrig Milltir | Gweler Atodlen 2 |
| Dyddiad Dechrau | [Dyddiad Dechrau] |
| Dyddiad Gorffen | Y cynharaf o'r:<br>(a) Dyddiad pan fydd y Cytundeb yn cael ei derfynu yn unol â'i delerau; ac<br>(b) [mewnosodwch y dyddiad y cytunwyd arno] |
| Amodau Arbennig | Yn ogystal â'r Telerau ac Amodau a nodir yn Atodlen 1, mae'r Amodau Arbennig canlynol yn berthnasol:<br>[ ] |

<table>
<tr><td></td><td colspan="4">[Rhowch 'Dim' os nad oes amodau prosiect-benodol i'w cynnwys]</td></tr>
<tr><td rowspan="9">Proffil Taliadau</td><td colspan="4">Bydd y Grant yn cael ei dalu mewn ôl-ddyledion a gellir ei hawlio mewn rhandaliadau yn seiliedig ar Wariant Cymwys a gafwyd a cherrig milltir perfformiad a gyflawnwyd, fel a ganlyn:</td></tr>
<tr><td colspan="4">[Opsiwn 1, lle mae'r Grant i'w dalu mewn rhandaliadau]</td></tr>
<tr><td>Sbardun neu Gyfnod Taliad (e.e. Chwarter 1)</td><td colspan="2">Amcangyfrif y swm</td><td>Dyddiad a amcangyfrifir</td></tr>
<tr><td>[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td><td>[ ]</td></tr>
<tr><td>[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td><td>[ ]</td></tr>
<tr><td>[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td><td>[ ]</td></tr>
<tr><td colspan="4">[Opsiwn 2, lle mae'r Grant i'w dalu fel un swm penodol]</td></tr>
<tr><td colspan="2">Uchafswm</td><td colspan="2">Dyddiad a amcangyfrifir</td></tr>
<tr><td colspan="2">[ ]</td><td colspan="2">[ ]</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwaredu</td><td colspan="4">yn golygu [dyddiad], sef y dyddiad cyn na fedrwch chi waredu'r Asedau a Ariennir</td></tr>
<tr><td>Cyllid Cyfatebol</td><td colspan="4">yn golygu cyfraniad ariannol (ac eithrio'r Grant neu Gyllid UGC Arall) o [swm], heb fod yn llai na 35% o gyfanswm Gwariant Cymwys y Prosiect</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Manylion Hysbysiad</td><td colspan="4">I Ni, drwy'r post i [enw/teitl y swydd] yn [cyfeiriad post] neu drwy e-bost at [cyfeiriad e-bost] neu i unrhyw gyfeiriad arall a allai gael ei hysbysu o bryd i'w gilydd gennym Ni; ac</td></tr>
<tr><td colspan="4">I Chi drwy'r post i [enw/teitl y swydd] yn [cyfeiriad post] neu drwy e-bost i [cyfeiriad e-bost] neu i unrhyw gyfeiriad arall a allai gael ei hysbysu o bryd i'w gilydd gennych Chi; a</td></tr>
<tr><td>Uwch Swyddogion Anghydfod</td><td colspan="4">Mewn perthynas â Ni, Cyfarwyddwr Portffolio UGC; ac<br><br>Mewn perthynas â Chi, mae'r [Cadeirydd NEU Brif Weithredwr y Derbynnydd Grant]</td></tr>
<tr><td>Ffi GFA</td><td colspan="4">Mae ffi yn daladwy ar lofnodi'r GFA. Mae'r ffi yn cyfateb i 3% o swm y grant, yn amodol ar isafswm o £2,000 ac uchafswm o £20,000 heb gynnwys TAW. Mae'n ofynnol talu'r ffi hon o fewn 30 diwrnod o ddyddiad y cytundeb hwn.</td></tr>
</table>

Os hoffech dderbyn y cynnig hwn o gyllid ar y telerau a nodir yn y Cytundeb hwn, llofnodwch isod a dychwelwch gopi o'r llythyr at [Swyddog/cyfeiriad Uchelgais Gogledd Cymru]

Yr eiddoch yn gywir

SWYDDOG UGC]

Dros ac ar ran Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru sy'n cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru fel UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU

--------------------------------------------------------------------------

Ar Gopi:

Rydym drwy hyn yn derbyn cynnig UGC o'r Grant a thelerau ac amodau'r Cytundeb hwn.

Llofnodwyd ar ___________y dydd hwn o ____________________[blwyddyn]

_____________________________________________________ ---------------

LLOFNODWYD gan (enw mewn print bras) Llofnod
Wedi'i awdurdodi i lofnodi ar ran

[Derbynnydd y Grant]

ATODLEN 1

TELERAU AC AMODAU

Mae'r Grant a wneir gan UGC yn ddarostyngedig i'r telerau a nodir yn y Cytundeb hwn gan gynnwys mewn unrhyw atodlenni ac atodiadau sydd ynghlwm.

## 1 DIFFINIADAU A DEHONGLIAD

1.1 Bydd gan y termau canlynol yr ystyron a ganlyn pan gânt eu defnyddio yn y Cytundeb hwn (oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall):

| | |
|---|---|
| "Cynllun Grant Diwydiant 4G+" | yn golygu'r Cynllun Grant Diwydiant 4G+ sy'n rhan o Brosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+ a ariennir o Gynllun Twf y rhanbarth ac a ddarperir gan Uchelgais Gogledd Cymru |
| "Egwyddorion Caffael UGC" | yn golygu'r egwyddorion caffael a gyhoeddir gennym o bryd i'w gilydd sy'n nodi'r gofynion sy'n berthnasol i gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau mewn cysylltiad â phrosiectau a ariennir gennym Ni |
| "Cais" | yn golygu'r wybodaeth a ddarperir gennych Chi fel rhan o'r broses o wneud cais am y Grant a chael ei ddyfarnu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw Fynegiant o Ddiddordeb ac/neu unrhyw Ffurflen Gais (fel y bo'n berthnasol) |
| "Ffurflen Gais" | yn golygu'r ffurflen gais a gyflwynwyd gennych Chi mewn perthynas â'r Grant |
| "Deddf Llwgrwobrwyo" | yn golygu Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer a gyhoeddir gan adran berthnasol y llywodraeth ynglŷn â'r ddeddfwriaeth |
| "Diwrnod Busnes" | yn golygu diwrnod (ac eithrio dydd Sadwrn neu ddydd Sul) y mae banciau fel arfer ar agor yn Llundain |
| "Cytundeb Cydweithredu" | yn golygu, pan fo'r Prosiect i'w gyflawni'n gydweithredol, cytundeb ysgrifenedig rhyngoch Chi a phob parti arall sy'n ymwneud â chyflawni'r Prosiect sy'n bodloni gofynion y SCA 22 |
| "Costau'n Gor-redeg" | yn golygu unrhyw gostau'r Prosiect sy'n fwy na chyfanswm agregedig yr Uchafswm a'r Arian Cyfatebol |

| | |
|---|---|
| "Deddfwriaeth Diogelu Data" | yn golygu yr holl Ddeddfwriaeth sydd mewn grym o bryd i'w gilydd sy'n ymwneud â'r defnydd o ddata personol, gan gynnwys, heb gyfyngiad (i) unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data sydd o bryd i'w gilydd mewn grym yn y DU gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 neu unrhyw ddeddfwriaeth olynol, yn ogystal â (ii) y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE) 2016/679) ac unrhyw reoliad arall yr Undeb Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol sy'n ymwneud â diogelu data a phreifatrwydd (cyhyd ag, ac i'r graddau, y mae cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn gyfreithiol weithredol yn y DU) ac unrhyw ganllawiau ffurfiol neu Godau Ymddygiad a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth (neu awdurdod cymwys arall) ym mhob achos fel y cânt eu diwygio, eu disodli neu eu hamnewid o bryd i'w gilydd |
| "Gwariant Cymwys" | yn golygu gwariant priodol ac o reidrwydd a achoswyd gennych Chi wrth gyflawni'r Prosiect fel y nodir yn y Rhagolwg Gwariant, ac nad yw'n Wariant Anghymwys |
| "Mynegiant o Diddordeb" | yn golygu mynegiant o ddiddordeb a gyflwynwyd gennych Chi mewn perthynas â'r Grant |
| "Rhagolwg Gwariant" | yn golygu y rhagolwg gwariant sydd ynghlwm yn Atodlen 3 fel y'i diwygiwyd neu ei diweddaru yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn o bryd i'w gilydd |
| "Proses Hawlio Grant Ariannol" | yn golygu Proses Hawlio Grant Ariannol Cynllun Twf Gogledd Cymru fel y'i cyhoeddir a'i diweddarir gennym o bryd i'w gilydd, sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau Grant a'r telerau talu perthnasol |
| "Asedau a Ariennir" | yn golygu unrhyw asedau sydd wedi'u hariannu neu wedi'u hariannu'n rhannol gan y Grant |
| "Gwariant Anghymwys" | yn golygu unrhyw wariant a achoswyd ar gostau sydd wedi'u nodi fel rhai anghymwys yng Nghanllawiau Cais Cynllun Grant Diwydiant 4G+ (fel y'u diweddarir o bryd i'w gilydd) neu nad ydynt wedi'u nodi yn y Rhagolwg Gwariant |
| "Ansolfedd" | yn golygu nad ydych Chi yn gallu talu Eich dyledion fel y maent yn ddyledus neu eich bod yn fethdalwr (o fewn ystyr adran 123(1) Deddf Ansolfedd 1986 yn achos cwmni, neu adran 268, Deddf Ansolfedd 1986 yn achos unigolyn) neu rydych Chi yn ymrwymo i unrhyw drefniant gyda chredydwyr, neu ddiddymwr, ymddiriedolwr mewn methdaliad, derbynnydd, gweinyddwr, derbynnydd gweinyddol neu debyg yn cael ei benodi, neu feddiant neu orfodaeth neu unrhyw broses debyg arall yn cael ei chymryd yn eich erbyn Chi neu unrhyw un o'ch asedau Chi a bydd Ansolfedd yn cael ei ddehongli yn unol â hynny |
| "Deddfwriaeth" | yn golygu unrhyw Ddeddf Seneddol berthnasol, is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr Adran 21(1) Deddf Dehongli 1978, arfer yr uchelfraint frenhinol, cyfraith yr UE a gadwyd o fewn ystyr Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, offerynnau statudol, polisi neu ofyn rheoleiddio, canllawiau neu god diwydiant, neu ddyfarniad llys cyfraith perthnasol |

| | |
|---|---|
| "Meini Prawf Perfformiad Lleiafswm" | yn golygu'r meini prawf perfformiad lleiaf y cytunwyd arnynt rhyngoch Chi a Ni mewn perthynas â'r Prosiect |
| "Cyllid Arall UGC" | yn golygu unrhyw gyllid arall oddi wrthym Ni i Chi at ddibenion y Prosiect |
| "Deddf Waharddedig" | yn golygu |

cynnig, rhoi neu gytuno i roi i Ni neu unrhyw was i Ni unrhyw anrheg neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliant neu wobr am:

(a) wneud neu beidio â gwneud (neu am fod wedi gwneud neu beidio â gwneud) unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu gyflawni'r cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda Ni; neu

(b) ddangos neu beidio â dangos ffafr neu anffafriaeth i unrhyw berson mewn perthynas â'r cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda Ni;

2. ymrwymo i'r cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda Ni lle mae comisiwn wedi'i dalu neu y cytunwyd ei dalu gennych Chi neu ar eich rhan Chi, neu hyd y gwyddoch Chi, oni bai bod manylion unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gontract o'r fath ar gyfer ei dalu wedi'u datgelu'n ysgrifenedig i Ni;

3. cyflawni unrhyw drosedd:

(a) o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo;

(b) o dan ddeddfwriaeth sy'n creu troseddau sydd a wnelont â gweithredoedd twyllodrus; neu

(c) yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r cytundeb hwn neu unrhyw gontract arall gyda Ni; neu

4. twyllo neu geisio twyllo neu gynllwynio i'n twyllo Ni

| | |
|---|---|
| "Awdurdod Sancsiynau" | yn golygu Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, Trysorlys Ei Fawrhydi (gan gynnwys y Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol), Swyddfa Tramor, y Gymanwlad a Datblygu, Swyddfa Rheoli Asedau Tramor Adran Trysorlys yr Unol Daleithiau, Adran Gwladwriaeth yr Unol Daleithiau, ac unrhyw sefydliad, asiantaeth, adran neu awdurdod llywodraethol, barnwrol neu reoleiddiol arall sy'n gweinyddu, gweithredu neu orfodi Deddfau Sancsiynau o bryd i'w gilydd |

| | |
|---|---|
| "Deddfau Sancsiynau" | yn golygu unrhyw sancsiynau economaidd, ariannol, masnach neu sancsiynau eraill, cyfreithiau, rheoliadau, mesurau cyfyngol, embargos, gorchmynion neu ofynion a ddeddfwyd, a weinyddir, a osodir neu a orfodir o bryd i'w gilydd gan unrhyw Awdurdod Sancsiynau, gan gynnwys dan Ddeddf Sancsiynau a Gwrth-wyngalchu Arian 2018 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan hynny |
| "Person Sancsiynol" | yn golygu unrhyw berson (gan gynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, sefydliad, llywodraeth neu endid arall neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran unrhyw un o'r uchod):<br>a) sy'n cael ei restru ar, neu sy'n eiddo neu'n cael ei reoli yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) gan berson a restrir ar unrhyw restr o bersonau dynodedig a gynhelir gan Awdurdod Sancsiynau;<br>b) sydd wedi'i leoli yn, wedi'i ymgorffori o dan gyfreithiau llywodraeth unrhyw wlad neu diriogaeth sy'n destun Deddfau Sancsiynau cynhwysfawr ledled y wlad neu diriogaeth; neu<br>c) y mae delio â nhw fel arall wedi'i wahardd neu ei gyfyngu o dan unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol |
| "SCA 22" | yn golygu Deddf Rheoli Cymorthdaliadau (SCA) 2022; |
| "Cymhorthdal" | caiff ei ddiffinio yn adran 2(1) o'r SCA 22 |
| "Adroddiad Gwerthuso Cryno" | yn golygu, mewn perthynas ag unrhyw gontract a ddyfarnwyd mewn cysylltiad â'r Prosiect sydd â chyfanswm gwerth sy'n fwy na £75,000, adroddiad ysgrifenedig a baratowyd gennych Chi ac a gyflwynwyd i Ni sy'n cynnwys:<br>a) disgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau a gaffaelwyd;<br>b) crynodeb o'r broses gaffael a ddilynwyd, gan gynnwys camau allweddol a phwyntiau penderfynu;<br>c) crynodeb o'r meini prawf gwerthuso a gymhwyswyd a chanlyniadau'r asesiad; a<br>d) chyfiawnhad i'r cyflenwr neu'r contractwr a argymhellir yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwerthusiad |
| "Gofyniad Cystadleuaeth y DU" | yn golygu SCA 22 a/neu ddeddfwriaeth a/neu reoliadau a/neu ganllawiau eraill a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a/neu a gymeradwywyd gan Senedd San Steffan sydd mewn grym ac/neu sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr sy'n rheoleiddio Cymhorthdal |
| "Cymhorthdal Anghyfreithlon" | yn golygu Cymhorthdal sydd wedi'i roi, neu o bryd i'w gilydd sydd, yn groes i Ofyniad Cystadleuaeth y DU; |

## 2 TALU A DEFNYDDIO'R GRANT

2.1 Rydym wedi dyfarnu'r Grant i Chi at ddibenion y Prosiect fel y nodir yn Eich Cais.

2.2 Rhaid i chi ddefnyddio'r Grant ar gyfer cyflawni'r Prosiect yn unig ac yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir yn y Cytundeb hwn.

2.3 Rhaid i chi beidio â defnyddio'r Grant at unrhyw ddiben arall heb gael Ein cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw.

2.4 Rhaid i chi ddefnyddio'r Grant yn unol â'r Rhagolwg Gwariant.

2.5 Byddwn yn talu'r Grant fel y manylir yn y Proffil Talu, yn amodol ar i'r arian angenrheidiol fod ar gael i Ni pan fydd y taliad yn ddyledus. Rydych yn cytuno ac yn derbyn mai dim ond i'r graddau y mae gennym Ni arian ar gael y gellir gwneud taliadau'r Grant. Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau bod yr Arian Cyfatebol ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer y Prosiect yn y symiau a'r amserlen sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r Prosiect.

2.6 Ni fydd gennym unrhyw rwymedigaeth i wneud unrhyw daliad o Grant i Chi nes eich bod wedi dangos i'n boddhad Ni bod yr Arian Cyfatebol wedi'i sicrhau.

2.7 Rhaid cyflwyno pob hawliad am daliadau o'r Grant yn unol â'r Broses Hawlio Grant Ariannol.

2.8 Pan fo'r Prosiect i'w gyflawni'n gydweithredol, ni fydd gennym unrhyw rwymedigaeth i wneud unrhyw daliad o'r Grant i Chi nes eich bod wedi darparu copi o'r Cytundeb Cydweithredu i Ni ar ffurf sy'n foddhaol i Ni.

2.9 Byddwch yn sicrhau bod unrhyw Arian Cyfatebol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflawni'r Prosiect yn ôl yr angen. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd gennym unrhyw rwymedigaeth i ddarparu unrhyw Gyllid Cyfatebol ac ni ellir cyfrif unrhyw ran o'r Uchafswm nac unrhyw Gyllid UGC Arall fel Arian Cyfatebol.

2.10 Pan fo cost y Prosiect yn fwy na swm sy'n hafal i gyfanswm agregedig Uchafswm yr Arian Cyfatebol. Byddwch yn derbyn bod unrhyw gostau ychwanegol o'r fath (y "Costau gor-redeg ") yn gyfrifoldeb i Chi ac nad oes gennym Ni unrhyw rwymedigaeth i dalu unrhyw swm tuag at Gostau'n Gor-redeg.

2.11 Pan fo cost y Prosiect yn llai na'r Rhagolwg Gwariant, bydd swm y Grant sy'n daladwy yn gostwng pro rata o'i gymharu â'r gostyngiad mewn gwariant. Ym mhob achos, y Grant sy'n daladwy fydd naill ai'r Uchafswm neu'r gyfran gyfatebol o'r Gwariant Cymwys a achoswyd, pa un bynnag yw'r lleiaf.

2.12 Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall o'r Cytundeb hwn, ni fydd y Grant yn fwy na 65% o gyfanswm costau cyfalaf cymwys y Prosiect.

2.13 Bydd y Grant yn cael ei dalu i gyfrif banc yn eich enw Chi a rhaid iddo fod yn gyfrif banc busnes arferol. Rhaid i bob siec o'r cyfrif banc gael ei llofnodi gan o leiaf ddau gynrychiolydd unigol.

2.14 Rhaid i chi ad-dalu'n brydlon i Ni unrhyw arian a dalwyd yn anghywir i Chi boed o ganlyniad i'n gwall gweinyddol Ni neu fel arall.

2.15 Ni fyddwch yn defnyddio unrhyw ran o'r Grant i dalu unrhyw Wariant Anghymwys.

2.16 Ni fydd gennym unrhyw rwymedigaeth i wneud unrhyw daliad o'r Grant ar ôl y Dyddiad Gorffen.

2.17 Er gwaethaf y Proffil Talu, bydd gennym hawl i gadw swm sy'n hafal i 5% o'r Uchafswm hyd nes bydd y deilliannau a nodir yn Atodlen 2 (Allbynnau a Cherrig Milltir) wedi cael eu gwirio gennym Ni fel ein bod yn resymol fodlon.

1.1 Os bydd unrhyw ran o'r Grant yn parhau heb ei wario ar y Dyddiad Gorffen, rhaid i chi sicrhau bod unrhyw arian sydd heb ei wario (os hawliwyd o'r blaen) yn cael ei ddychwelyd i Ni.

1.2 Rhaid i'r Prosiect gael ei gwblhau erbyn 31 Ionawr 2030 fan bellaf. Rhaid cyflawni'r holl Allbynnau erbyn 31 Mawrth 2036 fan bellaf.

2. CYFRIFEG

2.1 Bydd y Grant yn cael ei gyfrif ar wahân yn eich cyfrifon yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol ac ni chaiff ei gynnwys o dan gronfeydd cyffredinol. Pan fo eich fframwaith cyfrifeg cymwys yn ei gwneud yn ofynnol i'r Grant gael ei ddangos fel cronfa gyfyngedig, bydd yn cael ei ddynodi felly.

2.2 Rhaid i chi gadw cyfrifon a chofnodion ar wahân, yn gywir a chyfredol, i ddangos eich bod wedi derbyn a gwario'r Grant.

2.3 Rhaid i chi gadw'r holl anfonebau, derbynebau a chyfrifon ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ymwneud â gwariant y Grant am gyfnod o leiaf [chwe] blynedd ar ôl derbyn unrhyw arian Grant y mae'r arian yn ymwneud ag o. Bydd gennym yr hawl i adolygu, ar Ein cais rhesymol, Eich cyfrifon a'ch cofnodion sy'n ymwneud â gwariant y Grant a bydd gennym Ni yr hawl i gymryd copïau o'r cyfrifon a'r cofnodion hynny.

3. ADRODD A CHAEL MYNEDIAD AT WYBODAETH

3.1 Byddwch yn darparu adroddiad ariannol ac adroddiad gweithredol i Ni ar eich defnydd Chi o'r Grant a chyflawniad y Prosiect bob chwarter ac yn y fformatau hynny yr ydym yn rhesymol eu hangen.

3.2 Ar gais, byddwch yn rhoi rhagor o wybodaeth, esboniadau a dogfennau i Ni fel y byddwn yn rhesymol eu hangen er mwyn i Ni sefydlu bod y Grant wedi'i ddefnyddio'n briodol yn unol â'r Cytundeb hwn. Byddwch yn caniatáu i Ni gael mynediad i'ch eiddo a/neu staff a/neu wirfoddolwyr ar Ein cais rhesymol at ddibenion monitro'r defnydd o'r Grant a chyflawniad y Prosiect a'ch perfformiad Chi o'ch rhwymedigaethau Chi dan y Cytundeb hwn.

3.3 Byddwch yn cydymffurfio ag Egwyddorion Caffael UGC mewn perthynas â'r holl gaffael a wneir mewn cysylltiad â'r Prosiect. Ar gyfer unrhyw gontract sydd werth dros £75,000 a wnaed mewn cysylltiad â'r Prosiect, byddwch yn paratoi ac yn cyflwyno Adroddiad Gwerthuso Cryno i Ni ar ffurf y byddwn Ni efallai ei angen yn rhesymol, a byddwch Chi yn cadw'r holl gofnodion caffael am y cyfnod a bennir yng Nghymal 3.3 at ddibenion archwilio ac adolygu cydymffurfiaeth.

3.4 Cytunir ar Isafswm Meini Prawf Perfformiad rhyngoch Chi a Ni mewn perthynas â'r Prosiect cyn talu'r taliad Grant cyntaf.

3.5 Heb ragfarnu Eich rhwymedigaethau o dan Gymalau 4.1 a 4.2, byddwch Chi yn cyflwyno hunan-ddatganiadau perfformiad i Ni ar gyfnodau o ddim llai na bob chwe mis o'r Dyddiad Dechrau tan 31 Mawrth 2031, ac yn flynyddol ar ôl hynny, ym mhob achos ar y ffurf a ofynnir yn rhesymol gennym Ni. Bydd unrhyw anghydfod sy'n codi o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn cael ei ddatrys yn unol â Chymal 19.4.

3.6 Byddwch yn cydweithredu'n llawn ag unrhyw werthusiad allanol o'r Prosiect neu'r Cynllun Grant Diwydiant 4G+ a gomisiynwyd gennym ni, gan gynnwys (heb gyfyngiad) drwy ddarparu'r wybodaeth, y mynediad a'r cymorth a allai fod yn rhesymol ei angen gennym Ni neu gan unrhyw drydydd parti a benodwyd gennym Ni i gynnal gwerthusiad o'r fath.

3.7 CYFATHREBU

Bydd unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad a roddwyd neu a gyflwynwyd o dan y Cytundeb Grant hwn yn cael ei roi neu ei gyflwyno yn ysgrifenedig (gan gynnwys drwy bost electronig) i'r Manylion Hysbysiad.

4.8 Cyflawni

4.9 Ystyrir bod unrhyw hysbysiad, galw neu gyfathrebu o'r fath wedi'i roi neu ei wneud yn briodol fel a ganlyn:-

4.9.1 Os anfonir trwy ddosbarthiad personol, ar ôl ei gyflwyno i gyfeiriad y parti perthnasol;

4.9.2 Os anfonir drwy bost dosbarth cyntaf, dau Ddiwrnod Busnes ar ôl dyddiad postio; ac

4.9.3 Os anfonir trwy e-bost, ar adeg y trosglwyddiad,

ar yr amod, os, yn unol â'r darpariaethau uchod, y bydd unrhyw gyfathrebu o'r fath fel arall yn cael ei ystyried ei fod yn cael ei roi neu ei wneud y tu allan i oriau gwaith arferol, ystyrir bod cyfathrebu o'r fath wedi'i roi neu ei wneud ar ddechrau'r Diwrnod Busnes nesaf.

5. GWARANTAU A SYLWADAU

Wrth dderbyn y cynnig hwn (a phob tro y byddwch yn derbyn taliad o'r Grant) rydych Chi'n gwarantu ac yn cadarnhau i Ni:

5.1 Eich bod yn gorff gyda chyfansoddiad cyfreithiol ac mae gennych y gallu a'r awdurdod llawn a'r holl ganiatâd ac arbenigedd angenrheidiol i ymrwymo a chyflawni Eich rhwymedigaethau o dan delerau'r Cytundeb hwn ac rydych Chi'n cydnabod eu bod yn rhwymedigaethau dilys, cyfreithiol a rhwymol i Chi ac yn orfodadwy yn eich erbyn Chi;

5.2 nid yw cytuno i ymrwymiad y Cytundeb hwn yn gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau, deddfau, rheoliadau neu gytundebau eraill sy'n rhwymol i Chi.

5.3 mae'r holl wybodaeth, dogfennau a chyfrifon a ddarperir gennych chi neu ar eich rhan, o bryd i'w gilydd yn wir, yn ddilys ac yn gywir;

5.4 Nid ydych yn torri unrhyw gyfraith neu Ddeddfwriaeth neu reoliadau neu gyfraith cyfarwyddebau swyddogol mewn unrhyw agwedd faterol;

5.5 Nid ydych yn ymwybodol o unrhyw ffaith neu amgylchiad a allai effeithio ar gwblhau'r Prosiect yn llwyddiannus;

5.6 Byddwch yn sicrhau bod pob caniatâd a thrwyddedau angenrheidiol yn eu lle ac yn cael eu cynnal;

5.7 Mae gennych a byddwch yn cadw systemau ar waith i ddelio ag atal twyll a / neu gamweithrediad gweinyddol;

5.8 Rydych wedi'ch cofrestru o dan God Cyfathrebu Electronig Ofcom ac yn cydymffurfio ag Amodau Cyffredinol Hawl Ofcom (neu'n dal yswiriant rheoleiddiol cyfatebol) a byddwch yn cynnal cofrestriad a chydymffurfiaeth o'r fath drwy gydol tymor y Cytundeb hwn;

5.9 ni fydd unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Prosiect yn cael eu cyflenwi gan werthwr risg uchel fel y'i diffinnir yng nghyngor y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar ddefnyddio offer gan werthwyr risg uchel yn rhwydweithiau telathrebu'r DU;

5.10 nid fydd unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Prosiect yn dod neu'n tarddu, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o Ffederasiwn Rwsia neu Weriniaeth Belarws, ac ni fyddwch yn defnyddio unrhyw ran o'r Grant i gaffael neu ariannu caffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau o'r fath;

5.11 Nid ydych wedi cyflawni, ac ni fyddwch Chi'n cyflawni, unrhyw Weithred Waharddedig;

5.12 nid ydych Chi nac unrhyw un o'ch swyddogion Chi, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr, nac unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â Chi mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect, yn Berson Sancsiynol;

5.13 Nid ydych Chi nac unrhyw un o'ch swyddogion, cyflogeion, asiantau neu isgontractwyr Chi, nac unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â Chi mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect, wedi cymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad a fyddai, neu a allai, arwain at gael ei ddynodi neu ei restru ar unrhyw Restr Sancsiynau;

5.14 nid yw'r Grant wedi cael ei ddefnyddio, ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol:

5.14.1 er budd unrhyw Berson Sancsiynol, neu i sicrhau bod arian ar gael iddynt;

5.14.2 i ariannu, hwyluso, cefnogi neu ariannu unrhyw weithgaredd, trafodiad neu drefniant a fyddai'n cael ei wahardd o dan unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys neu a fyddai'n achosi i Ni neu Chi fod yn torri unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys; neu

5.14.3 mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n agored i Ni, Chi, neu unrhyw un o'u personél priodol i unrhyw sancsiynau, cosb, atebolrwydd neu gamau rheoleiddio andwyol o dan unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys;

5.15 Nid ydych yn torri, ac nid ydych yn destun unrhyw archwiliad, ymchwiliad, achos neu gamau gorfodi gan unrhyw Awdurdod Sancsiynau mewn perthynas ag unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol; a

5.16 Bod gennych bolisïau, gweithdrefnau, systemau a rheolaethau priodol ac effeithiol yn eu lle ac wedi'u cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r holl Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol mewn cysylltiad â defnyddio'r Grant a chyflawni'r Prosiect; ac

5.17 Byddwch yn ein hysbysu'n brydlon am unrhyw newid yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar gydymffurfiaeth â Gofyniad Cystadleuaeth y DU neu a allai arwain at y Grant yn cynnwys gwaredu Cymhorthdal Anghyfreithlon;

6. GWAREDU

6.1 Rhaid i Chi beidio â chael gwared ar unrhyw Asedau a Ariennir cyn y Dyddiad Gwaredu heb Ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

6.2 Rhaid i'r holl Asedau a Ariennir fod â hyd oes ddisgwyliedig ddigonol a rhaid iddynt allu gweithredu'n effeithiol tan o leiaf 31 Mawrth 2036. Os oes angen disodli neu uwchraddio unrhyw Ased a Ariennir cyn 31 Mawrth 2036, eich cyfrifoldeb chi fydd y gost gysylltiedig lawn ac ni fydd gennym unrhyw rwymedigaeth i gyfrannu at unrhyw gost o'r fath.

7. NEWIDIADAU

7.1 Rhaid i chi roi gwybod i Ni ar unwaith os ydych eisiau neu angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Prosiect gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau i unrhyw un o'r Allbynnau, Cerrig Milltir, Dyddiad Dechrau, Dyddiad Gorffen, Dyddiad Cwblhau Targed, Rhagolwg Gwariant a/neu ariannu'r Prosiect.

7.2 Rhaid i unrhyw newidiadau fod wedi'u cytuno, yn ysgrifenedig, gyda Ni, cyn iddynt ddod yn weithredol. Gellir cyflawni newidiadau o'r fath y cytunwyd arnynt i'r Allbynnau Cerrig Milltir, y Dyddiad Dechrau, y Dyddiad Gorffen, y Dyddiad Cwblhau Targed a'r Rhagolwg Gwariant drwy gyfnewid gohebiaeth a bernir bod y Cytundeb hwn wedi'i amrywio i ystyried y newidiadau y cytunwyd arnynt gan ohebiaeth o'r fath.

8. DEDDFWRIAETH [ AC AMGYLCHEDDOL ]

8.1 Rhaid i chi gydymffurfio â Ni gan gynorthwyo a chydweithredu â Ni er mwyn i ni hefyd gydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Prosiect, ac mae angen i drydydd Partïon sy'n cael budd o'r Grant yma ac unrhyw gontractwyr y gallwch chi eu penodi wneud yr un fath) yr holl ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Prosiect, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:-

8.1.1 Ddeddfwriaeth cyflogaeth;

8.1.2 Rheoliadau ariannol a Deddfwriaeth; a

8.1.3 Deddfwriaeth Diogelu Data.

8.2 Wrth gyflawni'r Prosiect, rhaid i Dderbynnydd y Grant gydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel y bo'n berthnasol.

8.3 Bydd Derbynnydd Grant yn defnyddio pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Prosiect:

8.3.1 yn cyflawni gostyngiad mewn allyriadau ynni gweithredol mewn perthynas â'r Prosiect

8.3.2 yn lleihau'r carbon a ymgorfforwyd mewn perthynas ag asedau cyfalaf y Prosiect

8.3.3 yn cyflawni effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth lle bo'n bosibl]

9. DIBENION GWAHARDDEDIG

9.1 Ni chewch ddefnyddio'r Grant, yn llawn nac yn rhannol, ar gyfer:

9.1.1 dibenion plaid wleidyddol;

9.1.2 hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol;

9.1.3 gamblo, pornograffi neu gynnig gwasanaethau rhywiol;

9.1.4 prynu offer cyfalaf ac eithrio fel y nodir yn y Rhagolwg Gwariant;

9.1.5 unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon;

9.1.6 gweithgareddau refeniw;

9.1.7 caffael, creu neu wella asedau materol (gan gynnwys unrhyw adeilad, adeiladwaith newydd, tir, estyniadau ac addasiadau i adeiladau presennol neu brynu asedau sefydlog, peiriannau, offer, cerbydau neu beiriannau eraill) sydd â bywyd gwaith disgwyliedig o fwy na blwyddyn, ac eithrio'r Asedau a Ariennir a bennir yn y Rhagolwg Gwariant; neu

9.1.8 unrhyw fath arall o weithgaredd a allai yn ein barn Ni ddod â Ni neu'r Cynllun Grant Diwydiant 4G + i anfri.

10. SANCSIYNAU

10.1 Byddwch yn:

10.1.1 cydymffurfio, a sicrhau bod pob un o'ch swyddogion, gweithwyr, asiantau, isgontractwyr a phob trydydd parti y mae unrhyw ran o'r Grant yn cael ei basio, ei roi fel is-grant neu ei drosglwyddo iddo mewn modd arall, yn cydymffurfio, bob amser â'r holl Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol;

10.1.2 peidio â defnyddio neu ddarparu'r Grant (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol), yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol:

(a) i neu er budd unrhyw Berson Sancsiynol;

(b) at unrhyw ddiben a fyddai, neu a fyddai'n debygol o achosi, i Ni neu Chi fod yn torri unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol; neu

(c) mewn unrhyw ffordd a fyddai, neu a fyddai'n rhesymol disgwyl iddi ein hamlygu Ni i unrhyw sancsiynau, cosb, atebolrwydd neu ganlyniad andwyol arall o dan unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys;

10.1.3 cynnal a gweithredu, a phan fo unrhyw ran o'r Grant yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti, ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti hwnnw weithredu, cynnal a gweithredu, polisïau, gweithdrefnau, systemau a rheolaethau priodol ac effeithiol (sy'n gymesur â natur, graddfa a chymhlethdod y gweithgareddau perthnasol a defnydd o'r Grant) i:

(a) atal torri unrhyw Deddfau Sancsiynau cymwys;

(b) adnabod a sgrinio pob gwrthbarti, personél a derbynnydd yn erbyn yr holl restrau perthnasol a gynhelir gan unrhyw Awdurdod Sancsiynau cyn eu hymgysylltu mewn cysylltiad â'r Prosiect; a

(c) sicrhau monitro parhaus o wrthbartïon, personél a derbynwyr trwy gydol y cyfnod y maent yn ymwneud â'r Prosiect;

10.1.4 cynnal, a phan fo unrhyw ran o'r Grant yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti, ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti hwnnw gynnal diwydrwydd dyladwy sancsiynau priodol a chymesur ar bob gwrthbarti, derbynyddion, isgontractwyr a phersonau eraill sy'n ymwneud mewn perthynas â'r Grant a'r Prosiect, cyn ymrwymo i unrhyw drefniadau gyda phersonau o'r fath ac ar sail barhaus ar ôl hynny;

10.1.5 hysbyswch Ni yn ysgrifenedig ar unwaith ar ôl dod yn ymwybodol eich bod:

(a) Chi, neu unrhyw un o'ch swyddogion Chi, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr, neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â Chi mewn perthynas â'r Grant, wedi dod, neu honnir ei fod wedi dod neu sydd dan fygythiad o ddod yn Berson Sancsiynol;

(b) Chi, neu unrhyw un o'ch swyddogion Chi, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr, neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â Chi mewn perthynas â'r Grant, wedi torri, neu yr honnir neu amheuir yn rhesymol eu bod wedi torri, unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect;

(c) Eich bod wedi derbyn unrhyw ymholiad, cais am wybodaeth, hysbysiad neu alwad gan unrhyw Awdurdod Sancsiynau mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect; neu

(d) unrhyw amgylchiadau sydd wedi codi a allai arwain at dorri'r Cymal hwn mewn unrhyw fodd neu unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect; gan

10.1.6 ddarparu gwybodaeth, dogfennaeth a chymorth yn brydlon i Ni y byddwn o bosib ei angen yn rhesymol o bryd i'w gilydd at ddibenion:

(a) monitro a gwirio Eich cydymffurfiaeth â'r Cymal hwn a gyda'r holl Gyfreithiau Sancsiynau perthnasol; ac

(b) ein galluogi Ni i fodloni unrhyw un o'n rhwymedigaethau Ni ein hunain o dan Gyfreithiau Sancsiynau cymwys mewn cysylltiad â'r Grant neu'r Prosiect.

11. DIFFYG

11.1 Bydd yn Ddigwyddiad o Ddiffyg os

11.1.1 Byddwch Chi'n methu â chyflawni unrhyw Allbwn neu Garreg Filltir heb Ein caniatâd ysgrifenedig penodol;

11.1.2 Byddwch Chi'n cyflawni torcyfraith perthnasol o unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb (ac yn methu â datrys torcyfraith o'r fath o fewn 14 diwrnod o gais ysgrifenedig gennym Ni yn gofyn i Chi wneud hynny);

11.1.3 Byddwch Chi'n defnyddio'r Grant ac eithrio i'r diben y cafodd ei ddyfarnu, heb Ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw;

11.1.4 Byddwch chi'n ymgymryd â gweithgareddau sydd yn Ein barn resymol yn debygol o ddod ag enw da Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G + neu Ni i anfri;

11.1.5 Byddwch Chi'n darparu unrhyw wybodaeth berthnasol gamarweiniol neu anghywir i Ni;

11.1.6 Byddwch Chi'n mynd i ddyled (yn Ansolfent) neu bod unrhyw gamau yn cael eu cymryd gan unrhyw unigolyn tuag at Ansolfedd o'r fath;

11.1.7 Byddwch Chi'n rhoi'r gorau i weithredu am unrhyw reswm, neu y byddwch Chi'n gwneud cynnig (neu unrhyw lys awdurdodaeth gymwys yn gwneud gorchymyn) Eich bod yn cael Eich dirwyn i ben neu Eich diddymu (ac eithrio er dibenion ail-luniad neu gyfuniad di-ddyled a bona fide);

11.1.8 Byddwch Chi'n cyflawni neu wedi cyflawni Gweithred Waharddedig;

11.1.9 bod Cymhorthdal Anghyfreithlon (yn yr achos hwnnw bydd unrhyw Grant y mae'n ofynnol ei ad-dalu yn peri llog ar y gyfradd honno sy'n ofynnol o dan neu yn rhinwedd Gofynion Cystadleuaeth y DU sy'n berthnasol i Gymhorthdal o ddyddiad Ein hysbysiad sy'n gofyn am ad-dalu hyd at ddyddiad yr ad-daliad (cyn ac ar ôl dyfarniad) neu unrhyw gyfnod arall a allai fod yn ofynnol o dan neu yn rhinwedd Gofynion Cystadleuaeth y DU);

11.1.10 Eich bod wedi methu â dangos i'n boddhad eich bod wedi sicrhau'r Arian Cyfatebol cyn dyddiad amcangyfrifedig taliad cyntaf y Grant neu nad yw'r Arian Cyfatebol ar gael wedyn yn yr amserlenni sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r Prosiect;

11.1.11 Eich bod wedi methu â sicrhau arian a ddynodwyd i dalu am unrhyw Or-rediadau Costau ac yn Ein barn resymol rydych Chi'n annhebygol o sicrhau arian o'r fath;

11.1.12 Rydych wedi methu â chydymffurfio â'r Meini Prawf Perfformiad Gofynnol ac yn methu â chywiro diffyg cydymffurfiaeth o'r fath o fewn y cyfnod rhesymol y gallwn ei nodi mewn hysbysiad ysgrifenedig atoch, ac yn yr achos hwnnw bydd gennym hawl i adennill cyfran o'r Grant. Bydd gwerth y Grant adferadwy yn gostwng yn flynyddol ar gyfradd o 10% o'r Grant gwreiddiol am gyfnod o ddeng (10) mlynedd o ddyddiad talu rhandaliad olaf y Grant;

11.1.13 bydd unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Prosiect yn cael eu cyflenwi gan werthwr risg uchel fel y'i diffinnir yng nghyngor y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar ddefnyddio offer gan werthwyr risg uchel yn rhwydwaith telathrebu'r DU;

11.1.14 mae unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Prosiect yn dod neu'n tarddu, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o Ffederasiwn Rwsia neu Weriniaeth Belarws;

11.1.15 Bydd yn peidio â chael eich cofrestru o dan God Cyfathrebu Electronig Ofcom neu'n rhoi'r gorau i gydymffurfio ag Amodau Cyffredinol Hawl Ofcom (neu warchodaeth rheoleiddiol cyfatebol);

11.1.16 Rydym yn credu (gan weithredu'n rhesymol) na ellir neu ei bod yn annhebygol y bydd yn Prosiect yn cael ei gwblhau fel y nodir yn y Cais neu fel y cytunwyd fel arall gyda Chi; neu

11.1.17 Rydych yn torri unrhyw Gyfreithiau Sancsiynau cymwys neu rydych Chi neu unrhyw un o'ch swyddogion, gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr yn dod yn Berson Sancsiynol.

11.2 Pan fo Digwyddiad o Ddiffyg wedi bod, gallwn Ni:

11.2.1 derfynu'r Cytundeb hwn a phan fydd y Cytundeb yn cael ei derfynu, ni fydd unrhyw daliadau pellach o'r Grant yn cael eu gwneud gennym Ni; ac/neu

11.2.2 atal unrhyw daliad o Grant a fyddai fel arall yn daladwy; ac/neu

11.2.3 ei gwneud yn ofynnol i Chi ad-dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r Grant yr ydym Ni wedi'i dalu i Chi.

11.3 Os ydym Ni yn gofyn am ad-dalu'r Grant, rhaid i Chi dalu'r swm sy'n ofynnol i Ni mewn cronfeydd wedi'u clirio'n llawn o fewn pymtheg diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi ein cais ysgrifenedig am daliad.

12. YSWIRIANT

12.1 Byddwch yn gweithredu a chynnal polisi neu bolisïau priodol gyda chwmni yswiriant ag enw da mewn perthynas â'r holl risgiau y gallech eu hwynebu gennych Chi a gyfyd o Eich perfformiad o'r Cytundeb, gan gynnwys marwolaeth neu anaf personol, colli neu ddifrod i eiddo neu unrhyw golled arall.

13. INDEMNIADAU A CHYDNABYDDIAETH

13.1 Byddwch yn atebol am ac yn ein hindemnio Ni'n llawn am unrhyw dreuliau, atebolrwydd, colled, hawliad neu achos sy'n codi o dan statud, camwedd (gan gynnwys esgeulustod), contract a/neu gyfraith gyffredin mewn perthynas ag anaf personol neu farwolaeth unrhyw berson neu golled neu ddifrod i eiddo (p'un a yw'n perthyn i Ni neu fel arall) neu unrhyw hawliad gan unrhyw drydydd parti sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol allan o'r Prosiect a/neu berfformio neu -peidio â chyflawni neu oedi wrth gyflawni Eich rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn ac eithrio i'r graddau y mae'r un peth oherwydd unrhyw weithred neu esgeulustod gennym.

13.2 Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ganlyniadau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a allai ddigwydd oherwydd Eich bod yn rhedeg y Prosiect, y defnydd o'r Grant neu o dynnu'r Grant yn ôl. Mae ein rhwymedigaeth o dan y cytundeb hwn wedi'i gyfyngu i dalu'r Grant.

14. ILDIO HAWL

Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi gan y naill barti neu'r llall i arfer unrhyw hawl neu ddatrysiad o dan y cytundeb hwn yn cael ei ddehongli fel ildiad o unrhyw hawl neu ddatrysiad arall.

15. TROSGLWYDDO

Mae cynnig y Grant yn bersonol i Chi. Oni bai ein bod Ni wedi cytuno yn benodol yn ysgrifenedig fel arall, ni chewch Chi aseinio, arloesi, trosglwyddo, is-gontractio na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall naill ai fudd y Grant nac unrhyw un o'ch rhwymedigaethau Chi o dan y Cytundeb hwn.

16. TAW

Rydych Chi ac rydym Ni yn deall ac yn cytuno nad yw'r Grant gennym Ni o dan y Cytundeb hwn yn ystyriaeth am unrhyw gyflenwad ar gyfer dibenion Treth ar Werth ("TAW") p'un ai gennych Chi neu fel arall. Os, er y cytundeb a'r ddealltwriaeth rhyngoch Chi a Ni, y penderfynir bod y Grant yn ystyriaeth am gyflenwad at ddibenion TAW, bydd y Grant yn cael ei drin fel un sy'n cynnwys unrhyw TAW.

17. RHYDDID GWYBODAETH

17.1 Rydych yn cydnabod ein bod Ni yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIRs).

17.2 Byddwch yn:

17.2.1 darparu yr holl gymorth a chydweithrediad angenrheidiol fel y gofynnir yn rhesymol gennym Ni i'n galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau Ni o dan FOIA a'r EIRs;

17.2.2 trosglwyddo i Ni bob cais am wybodaeth sy'n ymwneud â'r cytundeb hwn a dderbyniwch Chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'w dderbyn;

17.2.3 darparu copi i Ni o'r holl wybodaeth sy'n perthyn i Ni y gofynnwyd amdani yn y cais am wybodaeth sydd yn Eich meddiant neu reolaeth ar y ffurf sydd ei hangen arnom Ni o fewn 5 diwrnod gwaith (neu gyfnod arall y gallwn Ni ei nodi'n rhesymol) o'n cais Ni am wybodaeth o'r fath;

17.2.4 peidio ag ymateb yn uniongyrchol i gais am wybodaeth oni bai eich bod wedi eich awdurdodi'n ysgrifenedig i wneud hynny gennym Ni.

17.3 Rydych yn cydnabod y gallai fod yn ofynnol i Ni o dan y FOIA a'r EIRs ddatgelu gwybodaeth heb ymgynghori neu gael caniatâd gennych Chi ac y byddwn Ni yn gyfrifol am benderfynu yn ôl Ein disgresiwn llwyr a yw unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â'r FOIA a/neu'r EIRs.

18. CYHOEDDUSRWYDD

18.1 Byddwch yn cydnabod y Grant yn eich adroddiad blynyddol a'ch cyfrifon sy'n ymwneud â'r Prosiect, gan gynnwys cydnabyddiaeth mai Ni yw ffynhonnell y Grant.

18.2 Rhaid i chi beidio â rhoi cyhoeddusrwydd na hyrwyddo'r Grant heb ein cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw, a rhaid i unrhyw gyfeiriad atom Ni neu'r Grant mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a/neu hyrwyddo sy'n ymwneud â'r Prosiect gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gennym Ni.

18.3 Rydym yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r holl ddata a ddarperir gennych Chi mewn perthynas â'r Grant at ddibenion cyhoeddusrwydd neu hyrwyddo.

19. DATRYS ANGHYDFOD

19.1 Os bydd unrhyw gŵyn neu anghydfod (nad yw'n ymwneud â'n hawl i atal arian neu derfynu) yn codi rhwng partïon y cytundeb hwn mewn perthynas â'r cytundeb hwn, dylid cyfeirio'r mater yn gyntaf i'w ddatrys at Reolwr Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G + neu unrhyw unigolyn arall a enwebir gennym o bryd i'w gilydd.

19.2 Os yw'r gŵyn neu'r anghydfod yn parhau heb ei datrys o fewn 14 diwrnod i'r mater gael ei gyfeirio gyntaf at Reolwr Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig 4G+ neu unigolyn enwebedig arall, fel ag y bo'r achos, gall y naill barti neu'r llall gyfeirio'r mater at Uwch Swyddogion yr Anghydfod gyda chyfarwyddyd i geisio datrys yr anghydfod trwy gytundeb o fewn 28 diwrnod, neu unrhyw gyfnod arall y cytunir ar y cyd rhyngoch Chi a Ni.

19.3 Yn absenoldeb cytundeb o dan Gymal 19.2, efallai y byddwch Chi a Ni yn ceisio datrys y mater trwy gyfryngu o dan y Weithdrefn Cyfryngu Enghreifftiol CEDR (neu unrhyw fodel datrys anghydfod priodol arall y cytunir rhyngoch Chi a Ni). Oni chytunir fel arall, byddwch Chi a Ni yn talu costau a threuliau'r cyfryngu yn gyfartal.

19.4 Os bydd anghydfod yn ymwneud â Chymal 4.5, bydd anghydfod o'r fath yn cael ei ddatrys trwy ddilysu perfformiad a gynhaliwyd gan drydydd parti annibynnol a nodwyd ar ddyddiad y Cytundeb hwn. Bydd costau dilysu annibynnol o'r fath yn cael eu talu gennych oni bai bod y trydydd parti annibynnol yn penderfynu bod y perfformiad a adroddwyd yn sylweddol gywir, ac yn yr achos hwnnw bydd y costau yn cael eu talu gennym Ni.

20. DIM PARTNERIAETH NAC ASIANTAETH

Ni fydd y cytundeb hwn yn creu unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhyngoch Chi a Ni, nac unrhyw berthynas rhwng pennaeth ac asiant, nac yn awdurdodi unrhyw barti i wneud neu ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ar gyfer neu ar ran y parti arall.

21. Y CYTUNDEB CYFLAWN

Mae'r Cytundeb hwn yn ffurfio'r cytundeb cyflawn rhyngoch Chi a Ni sy'n ymwneud â'i bwnc ac mae'n disodli'r holl drafodaethau, sylwadau ac ymrwymiadau blaenorol pryd bynnag yr oeddent yn digwydd.

22. CYFRAITH BERTHNASOL

Mae'r Cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr. Os canfyddir bod unrhyw ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy gan lys awdurdodaeth gymwys, bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei gwahanu oddi wrtho a bydd gweddill darpariaethau'r Cytundeb hwn fel arall yn parhau i fod mewn grym ac effaith lawn.

ATODLEN 2

ALLBYNNAU A CHERRIG MILLTIR

Rhaid i'r Prosiect gael ei gwblhau erbyn 31 Ionawr 2030 fan bellaf a rhaid gwneud pob taliad o'r Grant erbyn 31 Mawrth 2030 fan bellaf. Rhaid cyflawni'r holl Allbynnau erbyn 31 Mawrth 2036 fan bellaf.

Allbynnau

| ALLBWN | TARGED |
|---|---|
| [ ] ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |

Cerrig Milltir

| CARREG FILLTIR | DYDDIAD TARGED |
|---|---|
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |
| [ ] | [ ] |

ATODLEN 3

RHAGOLWG GWARIANT

*[Eitemau gwariant a rhagolwg penodol i'w mewnosod]*

## Proffil Gwariant Disgwyliedig

Cynllun Twf Gogledd Cymru
North Wales Growth Deal

| Dewiswch y rhaglen Cynllun Twf briodol gan ddefnyddio'r ddewislen gwymplen isod | |
|---|---|
| **Rhaglen** | **Rheolwr Rhaglen** |
| | |

| Dewiswch y prosiect Cynllun Twf briodol gan ddefnyddio'r ddewislen gwymplen isod. Nodwch hefyd eich sefydliad ac enw'r person sy'n gyfrifol am gyflwyno hawliadau | | |
|---|---|---|
| **Teitl Prosiect** | **Sefydliad** | **Cyswllt Prosiect** |
| | | |

Defnyddiwch y tabl isod I gadarnhau eich proffil gwariant disgwyliedig. Rhowch swm y cyllid Cynllyn Twf a (os yw'n berthnasol) swm y cyllid arall i'r cyfnodau hawlio chwarterol perthnasol

| Cyfnod Hawlio Chwarterol | Dyddiad Cyflwyno Hawliad | Cyfanswm Proffil Gwariant | Cyllid CTGC wedi'l broffilio | Proffil Ffynhonnell Ariannu arall |
|---|---|---|---|---|
| Gorffenaf 26 - Medi 2026 | 14/10/2026 | £ - | | |
| Hydref 26 - Rhagfyr 2026 | 14/01/2027 | £ - | | |
| Ionawr 27 - Mawrth 2027 | 14/04/2027 | £ - | | |
| Ebrill 27 - Mehefin 2027 | 14/07/2027 | £ - | | |
| Gorffenaf 27 - Medi 2027 | 14/10/2027 | £ - | | |
| Hydref 27 - Rhagfyr 2027 | 14/01/2028 | £ - | | |
| Ionawr 28 - Mawrth 2028 | 14/04/2028 | £ - | | |
| Ebrill 28 - Mehefin 2028 | 14/07/2028 | £ - | | |
| Gorffenaf 28 - Medi 2028 | 14/10/2028 | £ - | | |
| Hydref 28 - Rhagfyr 2028 | 14/01/2029 | £ - | | |
| Ionawr 29 - Mawrth 2029 | 14/04/2029 | £ - | | |
| Ebrill 29 - Mehefin 2029 | 14/07/2029 | £ - | | |
| Gorffenaf 29 - Medi 2029 | 14/10/2029 | £ - | | |
| Hydref 29 - Rhagfyr 2029 | 14/01/2030 | £ - | | |
| Ionawr 30 - Mawrth 2030 | 14/04/2030 | £ - | | |
| | | £ - | £ - | £ - |